

Aseiad o Anghenion Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Merthyr Tudful



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Cynnwys

Rhestr Termiau	3
Cyflwyniad	4
Cefndir a Chyd-destun Polisi Cenedlaethol.....	5
Ynglŷn â Merthyr Tudful	6
• Asesiad Llesiant.....	6
• Poblogaeth	7
• Tai	9
• Amddifadedd	9
• Cynllun Llesiant	12
Digartrefedd ym Merthyr Tudful.....	13
• Tueddiadau Cenedlaethol	14
• Canlyniadau ar gyfer pob dyletswydd.....	16
Effaith Covid19.....	23
Llety.....	24
• Cofrestr Tai Cyffredin	25
• Tai Hygyrch	28
• Proffil o'r Stoc Dai / Daliadaeth.....	29
• Sector rhentu preifat	32
• Tai Gwag.....	34
• Sipsiwn a Theithwyr	35
• Cynllunio ac adeiladu	35
Gwasanaethau grant cymorth tai	36
• Atgyfeiriadau ar gyfer Gwasanaethau a Ariennir gan y Grant Cynnal Tai.....	38

Dealltwriaeth o'r anghenion cymorth tai mwyaf sylweddol.....	41
• Iechyd Meddwl • Camddefnyddio Sylweddau • Plant a Phobl Ifanc..... • Cyn-droseddwyr • Anabledd Dysgu • Pobl Hŷn..... • Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrâu • Gofalwyr • Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	41 45 48 49 51 52 53 54 54
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid.....	57
Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth	68
Canlyniadau.....	72
• Fframwaith Canlyniadau Llywodraeth Cymru • Data canlyniadau	72 72
Atodiad 1 Crynodeb o bolisi a deddfwriaeth.....	78

Rhestr Termau

CDLI – Cynllun Datblygu Lleol

MALIC – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

S66 – Adran 66, dyletswydd i atal digartrefedd

S73 – Adran 73, dyletswydd i helpu i sicrhau llety (am 56 diwrnod)

S75 – Adran 75, dyletswydd derfynol

WHO12 – Adroddiad chwarterol o ddata yn ymwneud â digartrefedd y mae Awdurdodau Lleol yn eu hanfon i Lywodraeth Cymru

Cyflwyniad

Mae'r asesiad hwn yn ddatganiad o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wybod am anghenion a'r galw yn y dyfodol am wasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai. Rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion bob pedair blynedd, gydag adolygiad llai manwl bob dwy flynedd.

Mae'r asesiad hwn o anghenion yn cwmpasu'r gofyniad statudol am adolygiad digartrefedd yn ogystal â'r asesiad llawn ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai. Mae angen i'r asesiad gael ei lywio gan y data canlynol:

- Asesiad o anghenion y boblogaeth
- Asesiad llesiant awdurdodau lleol
- Ystadegau digartrefedd a data arall am dai fel rhestrau aros
- Mynegai amddifadedd lluosog Cymru
- Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Asesiadau rhanbarthol o anghenion mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Unrhyw waith ymchwil / cyhoeddiad cenedlaethol perthnasol
- Data am ganlyniadau
- Data am anghenion gan ddarparwyr, paneli porth
- Data am anghenion nas diwallwyd dros y 12 mis diwethaf gan ddarparwyr, adolygiadau digartrefedd

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor lunio 'Datganiad o Angen' yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad o anghenion. Dylai'r datganiad nodi'r gofynion presennol a'r gofynion yn y dyfodol a dylai gynnwys anghenion rhanbarthol lle mae'r anghenion yn cael eu diwallu gan yr awdurdod lleol. Dylai'r datganiad hefyd nodi sut y caiff anghenion statudol a nodwyd eu diwallu drwy gyflawni dyletswyddau statudol.

Cefndir a Chyd-destun Polisi Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â digartrefedd yng nghyd-destun effaith hirdymor polisi Llywodraeth y DU, mewn perthynas â llymder a chymorth lles, yn ogystal â meysydd polisi eraill nad ydynt wedi'u datganoli sy'n effeithio ar ddigartrefedd fel gwaith yr Heddlu a Charchardai. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i atal a lliniaru digartrefedd sydd wedi arwain at gryfhau trefniadau partneriaeth lleol. Yr egwyddor arweiniol yw atal digartrefedd o hyd, ond lle nad yw'n bosibl, sicrhau ei fod yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd. Mae ymrwymiad o'r newydd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym. Bydd deall beth sy'n gweithio, yr hyn sy'n addawol, a'r hyn nad yw'n effeithiol yn hanfodol i Lywodraeth Cymru wrth gyflawni ei nodau polisi.

Roedd Tai yn Gyntaf yn newid cyfeiriad i'r Llywodraeth, mewn ymateb i dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg o'i heffeithiolrwydd. Roedd ymateb Cam 2 yn ystod camau cychwynnol y pandemig yn ceisio amddiffyn pobl ddigartref drwy ddarparu atebion llety dros dro a lleihau digartrefedd ar y stryd yn sylweddol. Mae dychwelyd yn raddol i 'normalrwydd' yn rhoi cyfle i werthuso effaith a manteision y rhaglenni a ariennir mewn ffyrdd amrywiol i lywio cam nesaf datblygu polisi gan ganolbwyntio'n benodol ar atal ac ail-gartrefu'n gyflym.

Mae nifer o egwyddorion sy'n sail i ddull Llywodraeth Cymru o atal digartrefedd, a ddylai gael eu hymgorffori ar draws gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau a gomisiynir:

- Yr ataliadau cynharaf sydd fwyaf effeithiol a chost-effeithiol a dyma'r ymyriadau ddylai fod yn ddewis cyntaf bob amser.
- Mae mynd i'r afael â digartrefedd ac atal digartrefedd yn fater o wasanaethau cyhoeddus – yn hytrach na'n 'fater tai'.
- Dylai pob gwasanaeth roi'r unigolyn yn y canol a chydweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma.
- Y dyletswyddau yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ddylai fod y llinell amddiffyn olaf – nid y cyntaf - a dylai pob gwasanaeth weithio i ysbryd nid yn unig llythyren y gyfraith.
- Dylai polisi, darparu gwasanaethau ac ymarfer gael eu llywio a'u llunio mewn modd cydgynhyrchiol a chan y rhai sydd â phrofiad o lygad y ffynnon.

Mae Atodiad 1 yn rhoi crynodeb llawn o ddeddfwriaeth a pholisiau perthnasol.

Ynglŷn â Merthyr Tudful

Yn cwmpasu 55 milltir sgwâr, Merthyr Tudful yw'r Awdurdod Unedol lleiaf yng Nghymru. Merthyr Tudful ei hun yw'r brif ganolfan boblogaeth ond mae'r ardal hefyd yn cynnwys nifer o bentrefi gan gynnwys Troed-y-rhiw, Aber-fan, Bedlinog a Threharris.

Dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf, mae'r Fwrdeistref Sirol wedi profi newid strwythurol ac economaidd sylweddol. Mae'r strwythur economaidd wedi newid o fod yn ardal a oedd wedi'i dominyddu gan gyflogaeth gynradd ac eilaidd i fod yn ardal sydd wedi'i dominyddu gan weithgareddau trydyddol. Mae nifer o ddatblygiadau mawr diweddar ym Merthyr Tudful megis Parc Manwerthu Cyfarthfa a Phentref Hamdden newydd wedi rhoi hwb economaidd i'r ardal, gan ddarparu swyddi i bobl leol a denu ymwelwyr a buddsoddiad i'r dref.

Mae Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi'i rhannu'n un ar ddeg o Wardiau etholiadol: Y Faenor, Dowlais, Gurnos, Penydarren, Cyfarthfa, Y Parc, Y Dref, Plymouth, Bro Merthyr, Treharris, a Bedlinog.


Asesiad Llesiant

Crynodeb

- Roedd 60,424 o bobl yn byw ym Merthyr Tudful ym mis Mehefin 2020. Bydd y boblogaeth yn tyfu'n gymedrol a bydd pobl 65+ oed yn dod yn gyfran fwy o'r boblogaeth gydag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol mwy cymhleth.
- Mae gan nifer o ardaloedd lefelau sylweddol o amddifadedd tai megis Tref Merthyr Tudful, Penydarren, Bro Merthyr a Gurnos.
- Mae llymder a diwygio lles wedi cael mwy o effaith negyddol nag mewn rhannau eraill o Gymru ac mae perygl i hyn gynyddu anghydraddoldebau ymhellach.
- Mae Merthyr Tudful yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ceir mwy o amddifadedd yng ngogledd y Sir yn yr ardaloedd o amgylch Merthyr Tudful megis Penydarren, Gurnos a Gelli deg yng Nghyfarthfa. Ceir crynodiad sylweddol o amddifadedd ym Mro Merthyr sy'n un o ddwy ardal o "amddifadedd dwfn" ynghyd â Phenydarren.
- Gall dangosyddion amddifadedd ar gyfer iechyd, incwm, cyflogaeth a thai roi pobl mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref. Ym maes iechyd, mae hyn yn cynnwys cyflyrau iechyd meddwl, salwch hirdymor cyfyngol a chyflyrau iechyd cronig, a gall pob un ohonynt ei gwneud yn anodd dod o hyd i lety addas a'i gadw.

- Mae gan y Grant Cymorth Tai ynghyd â phartneriaid ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Addysg a rhanddeiliaid allweddol eraill oll rôl bwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r anghenion hyn.

Mae gan wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru ddyletswydd gyfreithiol i gydweithio â phobl Cymru, er eu lles yn y dyfodol. Nodir y ddyletswydd hon yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Ddeddf yn cynnwys saith nod llesiant cenedlaethol y mae angen i'r Cyngor eu hystyried ym mhob un o'i gynlluniau.



Ffigur 1 Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)¹

Cynhelir asesiad Lles i helpu i ddeall yr hyn y mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella lles. Gwnaed hyn am y tro cyntaf yn 2017 a chaiff ei adnewyddu yn 2022. Cynhaliwyd yr asesiad diweddaraf gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ac mae'n cwmpasu Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, ac mae data o hyn wedi'i ddefnyddio ar gyfer yr asesiad hwn o anghenion. Mae'r Cyngor yn nodi amcanion sy'n seiliedig ar yr Asesiad Llesiant. Mae'r Grant Cynnal Tai a'r Fframwaith Canlyniadau yn ategu'r amcanion llesiant, yn enwedig o ran yr amcan 'Byw'n Dda' i wella bywydau a hyrwyddo annibyniaeth pobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful drwy gymunedau mwy diogel, hybu iechyd da a lleihau dibyniaeth. Ceir crynodeb o ganfyddiadau perthnasol Asesiad Llesiant Cwm Taf isod:

Poblogaeth

Yn ôl cyfrifiad 2011 poblogaeth y Fwrdeistref Sirol oedd 58,802 ac roedd 43,820 ohonynt yn y Dref. Yn 2011, oedran cymedrig y boblogaeth oedd 39.7. Roedd poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn

cynnwys:

- 10,960 o bobl o dan 16 oed,
- 7,048 o bobl rhwng 16 a 24 oed,
- 30,998 o bobl rhwng 25 a 64 oed,
- 9,796 o bobl 65 oed a hŷn.

Roedd 24,264 o anheddau, ac roedd y rhain yn cynnwys

- 8,277 o aelwydydd perchen-feddianwyr lle mae'r eiddo mewn perchnogaeth lwyr
- 7,566 lle mae gan yr aelwyd forgais yn ddyledus ar yr eiddo
- 42 o aelwydydd mewn rhanberchnogaeth
- 5,118 o aelwydydd sy'n byw mewn tai cymdeithasol ar osod
- 2,809 o aelwydydd sy'n byw yn y sector rhentu preifat
- 452 o aelwydydd sy'n byw'n ddi-rent mewn rhyw fath o ddeiliadaeth

Caiff y darlun hwn ei ddiweddarau yn 2022 gyda data newydd y cyfrifiad. Bydd strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai yn cael ei hadnewyddu ar ôl dwy flynedd, gan ganiatáu i'r data newydd yma gael ei ymgorffori yn yr asesiad o anghenion.

Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod 60,424 o bobl yn byw ym Merthyr Tudful ym mis Mehefin 2020, sy'n gynyddu o 98 o bobl o amcangyfrif 2019. Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Merthyr Tudful yn tyfu'n gymedrol, yn bennaf o ganlyniad i fudo, tra bydd demograffeg y boblogaeth yn newid yn sylweddol wrth i bobl 65+ oed ddod yn gyfran fwy o'r boblogaeth. Rhagwelir y bydd poblogaeth yr ardal yn tyfu i 63,154 erbyn 2040, sef twf o 5% o amcangyfrif 2020.

Fodd bynnag, rhwng 2018 a 2040 mae amcanestyniadau o'r boblogaeth yn amcangyfrif y bydd nifer y bobl 65+ oed yn cynyddu o 11,224 i 14,537, sef twf o 30%. Mae gan grwpiau oedran hŷn lefelau sylweddol uwch o dwf yn y boblogaeth, a rhagwelir y bydd grŵp y bobl 80+ oed yn tyfu 48% yn yr un cyfnod, gan adlewyrchu poblogaeth sy'n heneiddio gydag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol mwy cymhleth a dwys.

Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth yn 2018	Amcanestyniad o'r boblogaeth yn 2040 yn seiliedig ar amcangyfrif 2018	Amcangyfrif o'r amrywiant yn yr amcanestyniad o'r boblogaeth	Amcangyfrif o ganran yr amrywiant yn yr amcanestyniad o'r boblogaeth
Merthyr Tydfil	60,183	63,154	+2,971	4.9%

Cwm Taf Morgannwg	445,190	472,900	+27,710	6.2%
------------------------------	----------------	----------------	----------------	-------------

Tabl 1: Amcanestyniadau o Dwf y Boblogaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hyd 2040

Rhaid i'r Cyngor ystyried y boblogaeth sy'n heneiddio yn unol â ffactorau cysylltiedig eraill, gan gynnwys y cynnydd yn nifer yr achosion o ddementia (sy'n cael sylw pellach yn y ddogfen) wrth ddatblygu stoc a darpariaeth newydd i ateb y galw yn y dyfodol yn ddigonol.

Tai

Mae gan y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol (CDLI), sy'n nodi'r cynllun i ddefnyddio tir yn y Sir. Mae lle mae pobl yn byw yn cael dylanwad mawr ar eu llesiant, gyda chysylltiadau penodol rhwng tai ac iechyd corfforol a meddyliol. Ym Merthyr Tudful nodwyd bod gan nifer o ardaloedd lefelau sylweddol o amddifadedd tai fel ward Tref Merthyr Tudful, Penydarren, Bro Merthyr a Gurnos. Gallai defnyddio'r CDLI fel cyfle i adfywio cymdogaethau difreintiedig drwy dargedu, arwain at welliannau mewn iechyd corfforol a meddyliol a lles cyffredinol. Mae themâu perthnasol i ddigartrefedd yn cynnwys:

- Mae adfywio trefol yn y Sir yn rhoi cyfle i greu lleoedd sy'n denu buddsoddiad a busnes ac yn gwella llesiant.
- Mae tai yn fwy fforddiadwy ym Merthyr Tudful nag mewn rhannau eraill o Gymru, ond gallant fod y tu hwnt i gyrraedd pobl ifanc a'r rhai ar incwm isel o hyd.
- Mae diwygiadau lles wedi effeithio'n wael ar gymunedau, yn enwedig Gurnos.
- Yn hanesyddol, mae ardaloedd llai llewyrchus yng Nghymru, gan gynnwys Merthyr Tudful, wedi elwa o fuddsoddi arian Ewropeaidd. Bydd tynnu'r arian hwn yn ôl gan fod y DU bellach wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd yn golled sylweddol.
- Mae tirwedd ddaearyddol rhannau o Ferthyr Tudful yn ei gwneud trafndiaeth yn anodd. Mae hyn, ynghyd â chostau trafndiaeth, yn rhwystr rhag cael mynediad i waith.
- Mae plant sy'n cael eu magu mewn teuluoedd tlotach yn gadael yr ysgol gyda lefelau is o gymwysterau addysgol, sy'n lleihau eu rhagolygon ar gyfer cyflogaeth.


Amddifadedd

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw'r mesur y cytunwyd arno amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd gan gynnwys incwm, iechyd ac addysg. Mae'r data ym Mynegai

Amddifadedd Lluosog Cymru wedi'i rannu'n Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sy'n cynnwys 1,500 o bobl ar gyfartaledd – yng Nghymru mae yna 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is. Mae hyn yn galluogi dealltwriaeth ar lefel gymunedol o amddifadedd cyffredinol a meysydd penodol, megis iechyd, sydd â chysylltiad agos â natur fregus pobl o ran digartrefedd.

Mae Merthyr Tudful yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru gydag 8 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is, o'r cyfanswm o 36, sydd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae hanner yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn yr awdurdod lleol ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ceir mwy o amddifadedd yng ngogledd yr awdurdod lleol, yn enwedig yn yr ardaloedd o amgylch Merthyr Tudful fel Penyarden, Gurnos a Gelli-deg yng Nghyfarthfa. Er bod lefelau amddifadedd yn is yn ne'r awdurdod lleol, ceir crynodiad sylweddol o amddifadedd ym Mro Merthyr sy'n un o ddwy ardal o "amddifadedd dwfn" ym Merthyr Tudful.



Figur 2: Map o Dde Cymru yn dangos ardaloedd o amddifadedd dwfn (MALIC 2019)2

Mae amddifadedd dwfn yn cael ei ddiffinio fel ardal sydd wedi aros ymhlith y 50 mwyaf difreintiedig, sy'n cyfateb yn fras i'r 2.6% uchaf o ardaloedd bach yng Nghymru, yn y pum cyhoeddiad diwethaf o safleoedd MALIC (MALIC 2005, 2008, 2011, 2014 a 2019). Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, y ddwy ardal o amddifadedd dwfn ym Merthyr Tudful yw Bro Merthyr 2 a Phenydarren 1. Roedd 46% o bobl Penyarden 1 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17 ac mae'r ardal wedi'i nodi ymhlith yr 14 ardal fwyaf difreintiedig ers MALIC 2005.

Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is	Safle cenedlaethol ym MALIC 2014	Safle Cenedlaethol ym MALIC 2019	Newid mewn safle cenedlaethol 2014 19
Bro Merthyr 2	8	34	+ 26
Gurnos 1	32	56	+ 24
Cyfarthfa 2	30	65	+ 35
Gurnos 2	61	106	+ 45

Tabl 3 Safleoedd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Merthyr Tudful yn genedlaethol2

Mae'r dangosyddion ar gyfer iechyd, incwm, cyflogaeth a thai yn tynnu sylw at y pwysau gwahanol y gall pobl eu hwynebu, a all eu rhoi mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref. Ym maes iechyd, mae hyn yn cynnwys cyflyrau iechyd meddwl, salwch hirdymor cyfyngol a chyflyrau iechyd cronig, a gall pob un ohonynt ei gwneud yn anodd dod o hyd i lety addas a'i gadw.

Mae'r maes tai yn cynnwys dau fesur sydd wedi'u pwysoli'r un faint: y tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael (mewn cyflwr gwael neu'n cynnwys peryglon difrifol) a chanran y bobl sy'n byw ar aelwydydd gorlawn (mesur ystafelloedd gwely). Mae amddifadedd tai ar ei uchaf o amgylch gorsaf drenau Merthyr Tudful ac yn ne'r awdurdod lleol, mewn cymunedau fel Bro Merthyr, Troed-y-rhiw a Bedlinog.

Gwneuthuriad y Maes

Mae saith dangosydd yn y maes iechyd, wedi'u pwysoli fel a ganlyn:

- 31% Gyflyrau cronig wedi'u cofnodi gan Feddyg Teulu (cyfradd fesul 100), wedi'i safoni yn ôl oedran-rhyw
- 30% Cyflyrau hirdymor cyfyngol (cyfradd fesul 100), wedi'i safoni yn ôl oedran-rhyw
- 18% Marwolaethau cyn pryd (cyfradd fesul 100,000) wedi'i safoni yn ôl oedran-rhyw
- 10% Cyflyrau iechyd meddwl wedi'u cofnodi gan Feddyg Teulu (cyfradd fesul 100) wedi'i safoni yn ôl oedran-rhyw
- 4% Achosion o ganser (cyfradd fesul 100,000), wedi'i safoni yn ôl oedran-rhyw
- 4% Pwysau geni isel (genedigaethau sengl byw yn llai na 2.5kg, canran)
- 3% Plant 4-5 oed sy'n ordew (canran)

Mae lefelau digartrefedd ac ansicrwydd llety ym Merthyr Tudful yn debygol o fod yn gyfochrog â

lefelau amddifadedd, yn enwedig ar gyfer ardaloedd sy'n perfformio'n waeth yn y meysydd a nodwyd uchod.

Mae mesurau llymder a diwygiadau lles wedi cael mwy o effaith negyddol ym Merthyr Tudful nag mewn ardaloedd eraill ac mae perygl i hyn gynyddu anghydraddoldebau ymhellach. Mae'r Asesiad Llesiant yn argymhell y gallai'r camau canlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth wella canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau, lle mae gan wasanaethau a ariennir gan Grant Cymorth Tai rôl i'w chwarae:

- Rhaglenni sy'n sicrhau incwm digonol, yn lleihau dyled ac yn lleihau anghydraddoldebau incwm;
- Rhaglenni sy'n targedu grwpiau sy'n agored i niwed drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau mwy dwys a mathau eraill o gymorth i grwpiau o'r fath¹

Cynllun Llesiant

O'r Asesiad Llesiant, creodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf y Cynllun Llesiant a bydd yn cyflawni hyn drwy'r pum ffordd o weithio:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

Mae gan wasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni nifer o amcanion allweddol gan gynnwys:

Mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd

Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd newydd i sianelu cryfderau diamheuol ein cymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd a'r ynysigrwydd sy'n bodoli'n aml mewn llawer o'r cymunedau hyn.

Cymunedau Ffyniannus

Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus gan wella lles trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol.

Pobl Iach

Helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.

1 Asesiad Llesiant Cwm Taf 2017

Digartrefedd ym Merthyr Tudful

Crynodeb


- Roedd newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth digartrefedd o ganlyniad i bandemig Covid19 yn dileu 'angen blaenoriaethol' ac yn mabwysiadu dull 'pawb i mewn'. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y cyflwyniadau digartrefedd ers mis Mawrth 2020.
- Yn ddiethriad, mae'r Tîm Atebion Tai yn dibynnu ar lety gwely a brecwast a thai llety lleol, i ddarparu llety dros dro.
- Mae cyfran yr ataliadau a rhyddhad llwyddiannus fel cyfanswm o ganlyniadau pob dyletswydd yn is ym Merthyr Tudful na chyfartaledd Cymru.
- Mae data canlyniadau'r Cyngor mewn rhai meysydd, fel yn achos Adran 73, wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn rhwng 2019 a 2021, gyda Merthyr Tudful yn gwella o flwyddyn i flwyddyn mewn rhai meysydd, yn wahanol i dueddiadau cenedlaethol o ddirywiad.
- Mae COVID 19 wedi cael effaith sylweddol ar nifer y bobl sy'n agored i niwed sydd bellach yn destun dyletswydd digartrefedd, a'r ystod o anghenion cymhleth y mae angen cymorth arnynt.
- Dylai'r Siop Un Stop gael gwerthusiad yn dilyn pum mlynedd o weithredu.
- Mae'r pandemig wedi amlygu'r angen i bartneriaid system weithio'n well gyda'i gilydd a gwella'r broses o rannu data.

Mae'r adran hon yn dadansoddi'r data mewn perthynas â'r canlynol:

- Tueddiadau digartrefedd cenedlaethol
- Effaith COVID-19 ar gyflwyniadau digartrefedd
- Perfformiad yn erbyn dyletswyddau Deddf Tai (Cymru) 2014

Daw'r ystadegau digartrefedd a data tai yn bennaf o ddata cymorth y Cyngor ei hun a'i ffurflenni WHO12 chwarterol. Mae data o 2021 yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ionawr i fis Awst, oni nodir yn wahanol, ac felly ni fydd unrhyw dueddiadau a dehongliadau o'r data o reidrwydd yn rhoi cyfrif am newidiadau a ddigwyddodd ar ôl mis Awst. Mae Ffigur 3 isod yn dangos yn drefnus sut y caiff y dyletswyddau ar y Cyngor o dan y Ddeddf Tai eu cymhwyso.

Mae'r data'n dangos bod y rhan fwyaf o aelwydydd sydd naill ai'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd ym Merthyr Tudful yn aelwydydd un person, y mae'r mwyafrif ohonynt yn wrywod.



Ffigur 3 Siart Llif Asesiad Digartrefedd Llywodraeth Cymru3

Mae nifer y bobl sy'n cysylltu â'r Cyngor i dderbyn asesiad digartrefedd wedi cynyddu'n gyson o flwyddyn i flwyddyn ers i'r ddeddfwriaeth tai newydd ddod i rym ym mis Ebrill 2015. Gwelwyd cynnydd sylweddol pellach mewn cyflwyniadau yn dilyn y newidiadau a wnaed i angen blaenoriaethol ym mis Mawrth 2020 o ganlyniad i bandemig Covid 19 a osododd ddyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i ddarparu llety dros dro hyd nes y gellir sicrhau llety parhaol fforddiadwy. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r mathau canlynol o lety fel llety dros dro:

- Llety Lloches
- Hosteli
- Fflatiau sy'n eiddo i landlord cymdeithasol cofrestredig / cymdeithas dai
- Cynlluniau tai â chymorth
- Llety Gwely a Brecwast
- Tai Amfeddiannaeth (llety a rennir)

Yn ddieithriad, mae'r Tîm Atebion Tai yn dibynnu ar lety gwely a brecwast a thai llety lleol i ddarparu'r llety dros dro hwn, ar gost o rhwng £50 (sengl) a £90 (teulu) fesul ystafell, y noson.

Tueddiadau Cenedlaethol

Gan ddefnyddio data lefel genedlaethol, gan gynnwys cyfuno ffurflenni digartrefedd chwarterol yn genedlaethol, gellir gwneud cymariaethau rhwng Merthyr Tudful a Chymru gyfan o ran digartrefedd a chanlyniadau.

Roedd cyfran sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o aelwydydd un person wedi'u hasesu a/neu wedi derbyn cymorth ym Merthyr Tudful; aelwydydd un person oedd 89% o'r holl ganlyniadau yn 2020/21 o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 68%. O'r 105 o aelwydydd yr aseswyd eu bod yn anghymwys, neu'n gymwys ond nad oeddent yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd, roedd 99 yn aelwydydd un person (94%) o gymharu â 64% ar gyfer Cymru. Mae'r gwahaniaethau hyn yn awgrymu bod y mathau o gartrefi y mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth iddynt yn wahanol

ym Merthyr Tudful ac nad ydynt yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol.

Ardal	Adran 66	Adran 73	Adran 75
Cymru	48%	80%	

Tabl 4 Cyfran y canlyniadau aelwydydd un person yn ôl dyletswydd

Mae gan Ferthyr Tudful gyfran lai o ganlyniadau llwyddiannus ar draws yr holl ddyletswyddau o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda'r gwahaniaeth mwyaf rhwng cyfrannau'r aelwydydd sy'n cael eu rhyddhau'n gadarnhaol o'r ddyletswydd derfynol (Adran 75).

Ardal	Adran 66	Adran 73	Adran 75
Merthyr Tudful	48%	31%	56%
Cymru	65%	39%	75%

Tabl 5 Cyfran y canlyniadau llwyddiannus yn ôl dyletswydd yn 2020/21

Mae bwlch o 17% rhwng cyfran yr ataliadau llwyddiannus ym Merthyr Tudful a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfanswm nifer yr aelwydydd sy'n destun dyletswydd i atal digartrefedd ym Merthyr Tudful wedi mwy na haneru rhwng 2019/20 a 2020/21, sy'n ostyngiad mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol, sydd ond wedi gostwng ychydig yn fwy na thraean yn yr un cyfnod.

Y gwahaniaeth rhwng canlyniadau Adran 73 ym Merthyr Tudful a Chymru gyfan yw 8%, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth lleiaf rhwng y cyfartaledd cenedlaethol a'r awdurdod lleol o blith yr holl ddyletswyddau. Cododd cyfran y canlyniadau Adran 73 llwyddiannus ychydig rhwng 2019/20 a 2020/21 ym Merthyr Tudful, gan godi o 29% i 32% o gyfanswm y canlyniadau. Mae hyn yn wahanol i'r duedd genedlaethol lle gostyngodd cyfran y canlyniadau llwyddiannus o 41% i 39%.

Cyfradd yr achosion cadarnhaol o ryddhau o'r ddyletswydd derfynol (Adran 75) yw'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y cyfartaledd cenedlaethol a Merthyr Tudful, gyda dim ond 56% o aelwydydd yn symud ymlaen i'r ddyletswydd derfynol yn cael ei chyflawni'n gadarnhaol. Yn 2019/20, cafodd 79% o aelwydydd eu rhyddhau'n gadarnhaol, a oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 78%. Fodd bynnag, gyda chyfanswm nifer yr aelwydydd sy'n symud ymlaen i'r ddyletswydd derfynol yn agos at ddyblu rhwng 2019/20 a 2020/21, gostyngodd achosion cadarnhaol o ryddhau gan 23% - yn yr un cyfnod, gostyngodd y cyfartaledd cenedlaethol 3% yn unig i 75%.

Canlyniadau ar gyfer pob dyletswydd

Crynodeb


- Roedd canlyniadau yn dilyn darparu cymorth i bobl sy'n destun dyletswydd i helpu i sicrhau llety wedi gwella rhwng 2019/20 a 2020/21 gyda chyfran y bobl sy'n cael eu rhyddhau'n llwyddiannus o ddigartrefedd yn cynyddu o 29% i 32%.
- Mae gan Ferthyr Tudful lai o ganlyniadau llwyddiannus pan gaiff cymorth ei ddarparu mewn achosion lle mae pobl dan fygythiad o fod yn ddigartref neu lle mae dyletswydd i'w helpu i sicrhau llety am hyd at 56 diwrnod (adran 73) na rhai awdurdodau lleol eraill. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r lefelau uchel o amddifadedd ar draws llawer o gymunedau yn yr awdurdod lleol.

Mae'r adran hon yn crynhoi perfformiad y Cyngor yn erbyn gwahanol ddyletswyddau Deddf Tai (Cymru) 2014:

- Adran 62, dyletswydd i asesu
- Adran 66, dyletswydd i atal
- Adran 73, dyletswydd i helpu i sicrhau llety (am 56 diwrnod)
- Adran 75, dyletswydd derfynol

Adran 62, dyletswydd i asesu


Yn 2020/21, roedd 1,345 o geisiadau am gymorth a arweiniodd at wneud asesiad Adran 62, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn aelwydydd un person – 89% o'r cyfanswm. Mae hyn yn gynydd yng nghyfran yr aelwydydd un person ers 2019/20 lle'r oeddent yn cynnwys 56% o'r cyfanswm a gallai hyn fod yn gysylltiedig ag effaith pandemig COVID-19.



Ffigur 6 Nifer Canlyniadau Asesiad yr Awdurdod Lleol yn ôl Dyletswydd – Ebrill 2016 i Fawrth 2021

Adran 66, dyletswydd i atal


Gostyngodd nifer y bobl yr aseswyd eu bod yn destun dyletswydd i atal digartrefedd (Adran 66) a'u cynorthwyo, o 176 yn 2019/20 i 64 yn 2020/21 – gostyngiad o fwy na hanner blwyddyn o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig iawn ag effaith Pandemig y Coronafeirws, gan gynnwys y gwaharddiad ar droi allan, a oedd ar waith tan fis Gorffennaf 2021, y cynnydd mewn lles ac o bosibl llai o achosion o aelodau o'r teulu neu berthnasau agos yn cael eu troi allan.



Ffigur 7: Canlyniadau i ymgeiswyr cymwys sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref, gyda chymorth atal wedi'i ddarparu (Adran 66)

Roedd canlyniadau digartrefedd i bobl sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd i atal yn parhau'n weddol debyg gyda 49% o achosion yn cael eu hatal yn llwyddiannus yn 2019/20 o gymharu â 47% yn 2020/21. Gostyngodd cyfradd yr achosion atal aflwyddiannus o 22% i 20% o'r naill flwyddyn i'r llall

gyda mwy o bobl yn gallu aros yn eu cyfeiriad presennol am fwy na 56 diwrnod neu'n gallu dod o hyd i lety addas. Mae'r ddau ganlyniad hyn yn cael eu dosbarthu fel 'canlyniadau eraill' yn hytrach nag 'atal llwyddiannus', a gynyddodd 4% rhwng 2019/20 a 2020/21.




Ffigur 8 Canlyniadau digartrefedd i bobl sy'n destun dyletswydd Adran 66 i atal 2020-21. (Nid yw cymorth wedi'i wrthod a chais wedi'i dynnu'n ôl wedi'u cynnwys gan fod Stats Cymru wedi nodi bod y data'n ddatgelol neu ddim yn ddigon cadarn i'w gyhoeddi)

Roedd ymgeiswyr benywaidd yn cynrychioli cyfran gynyddol o bobl a oedd dan fygythiad o fod yn ddigartref lle darparwyd cymorth atal (Adran 66), gan dyfu o 55% o'r cyfanswm yn 2019/20 i 67% o'r cyfanswm yn 2020/21. Yn ogystal, pobl 25 oed a throsodd oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o ganlyniadau Adran 66, yn gyson dros 80% o'r cyfanswm. Yn yr un modd, roedd aelwydydd un person yn cyfrif am 81% o gyfanswm y canlyniadau Adran 66.

Adran 73, dyletswydd i helpu i sicrhau llety (am 56 diwrnod)


Yn 2019/20 Merthyr Tudful oedd yr awdurdod lleol gyda'r gyfradd uchaf o aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref (o dan Adran 73) yng Nghymru, sef 166 o achosion fesul 10,000 o aelwydydd. Cynyddodd nifer y bobl sy'n cael eu hasesu'n ddigartref ac sy'n destun dyletswydd i helpu i sicrhau llety ychydig i 437 o achosion rhwng 2019/20 a 2020/21.



Ffigur 9 Cyfradd am bob 10,000 o aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref (Adran 73) yn ystod 2020/21 ledled Cymru
 Ffynhonnell: Stats Cymru - Digartrefedd yng Nghymru 2020/21 (Rhagfyr 2021)⁹


Roedd canlyniadau yn dilyn darparu cymorth i bobl sy'n destun dyletswydd i helpu i sicrhau llety wedi gwella rhwng 2019/20 a 2020/21 gyda chyfran y bobl sy'n cael eu rhyddhau'n llwyddiannus o ddigartrefedd yn cynyddu o 29% i 32%. Bu gostyngiad sylweddol yn yr achosion o ryddhad

aflwyddiannus o'r naill flwyddyn i'r llall o 39% i 33% o gyfanswm y canlyniadau, sydd hefyd yn adlewyrchu'r gwelliant mewn canlyniadau digartrefedd o achosion Adran 73.



Figur 10: Canlyniad ymgeiswyr cymwys, digartref, sy'n destun dyletswydd i helpu i sicrhau llety (Adran 73) 2020-21

Fodd bynnag, mae gan y Cyngor lai o ganlyniadau llwyddiannus na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol pan ddarperir cymorth mewn achosion lle mae pobl dan fygythiad o fod yn ddigartref neu'n destun dyletswydd i helpu i sicrhau llety am hyd at 56 diwrnod (adran 73). Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r lefelau uchel o amddifadedd ar draws llawer o gymunedau yn yr awdurdod lleol a allai arwain at fwy o achosion yn ogystal â nifer cynyddol o achosion cymhleth, gyda mwy o achosion o anghenion sy'n cyd-ddigwydd.



Ffigur 11 Nifer canlyniadau Adran 73 2020/21

Ymgeiswyr gwrywaidd yw'r rhan fwyaf o achosion Adran 73, sef 66% o gyfanswm yr achosion, cynnydd o 59% o'r cyfanswm yn 2019/20. Fodd bynnag, gwrywod yw 53% yn unig o ganlyniadau sy'n arwain at ryddhad llwyddiannus ac maent wedi'u gorgynrychioli mewn canlyniadau rhyddhad aflwyddiannus. Mae hyn yn batrwm sydd hefyd i'w weld ymhlith ymgeiswyr gwrywaidd sy'n destun dyletswydd derfynol (Adran 75).

Aelwydydd un person yw'r mwyafrif llethol o achosion Adran 73 ym Merthyr, sef 95% o gyfanswm yr achosion yn 2020/21, sy'n cynnydd o fwy na 15% ers 2019/20. Mae hyn yn adlewyrchu'r lefel uwch o aelwydydd un person sy'n destun dyletswydd i liniaru (naill ai Adran 73 neu 75) o gymharu â'r ddyletswydd i atal lle nad ydynt ond tua 80% o'r achosion.

Dyletswydd Derfynol (Adran 75)

Cyfran gymharol isel o achosion sy'n arwain at ysgogi'r ddyletswydd derfynol gyda chanlyniadau o'r ddyletswydd derfynol yn cynrychioli 6% o gyfanswm y canlyniadau yn 2020/21. Bu cynnydd yn nifer yr achosion a oedd yn destun dyletswydd derfynol o'r naill flwyddyn i'r llall, ond roedd y rhan fwyaf o bobl a oedd yn destun dyletswydd derfynol yn dal i fod wedi'u rhyddhau'n gadarnhaol yn 2020/21, sef 55% o gyfanswm y canlyniadau.

Gostyngodd cyfradd yr achosion a oedd yn destun dyletswydd derfynol a gafodd eu rhyddhau'n gadarnhaol rhwng 2019/20 a 2020/21 o 76% i 55% tra bod cyfanswm nifer yr achosion wedi cynyddu. Gallai hyn fod wedi'i ysgogi gan fwy o bobl yn symud ymlaen i'r ddyletswydd derfynol gydag anghenion cymorth cynyddol gymhleth (a allai yn eu tro fod wedi'u gwaethygu gan effeithiau'r

pandemig) a oedd yn lleihau'r tebygolrwydd y byddai rhyddhau'n gadarnhaol yn parhau'n uchel.

Trosolwg o'r rheswm dros gyflwyno

Mae'r Tîm Atebion Tai yn cofnodi data am y rhesymau pam mae pobl yn dod yn ddigartref.

Wrth adolygu'r data am ddwy flynedd rhwng 2019 a 2021, bu cynnydd sylweddol yn y canlynol:

- Nid yw perthnasau na ffrindiau bellach yn barod nac yn gallu cynnig llety; cynyddodd hyn o 50 i 91 o unigolion.
- Cynyddodd nifer y rhai sy'n gadael carchar o 78 i 109.
- Cynyddodd nifer y bobl mewn argyfwng digartrefedd neu sy'n cysgu ar y stryd o 7 i 49.
- Yn amlwg gellir priodoli hyn i'r pandemig a pholisi 'Pawb i Mewn' gan Lywodraeth Cymru.

Effaith Covid19

Arweiniodd pandemig COVID-19 at leoli nifer sylweddol o bobl mewn llety dros dro ers mis Mawrth 2020. Nid yw'r sefyllfa wedi newid o ran y newid yn y Ddeddfwriaeth Ddigartrefedd sy'n golygu bod pawb sy'n cyflwyno mewn 'angen blaenoriaethol' (a elwir hefyd yn bolisi 'Pawb i Mewn'). Cynyddodd cyflwyniadau digartrefedd yn 20/21 gan 78% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Pobl unigol oedd 75% o'r cyflwyniadau, gan greu pwysau dwys ar y Cyngor i ddarparu llety a dibyniaeth drom ar lety gwely a brecwast. Mae gan lawer o'r unigolion sydd angen llety brys anghenion lluosog ac mae angen ystod eang o wasanaethau arnynt i'w cynorthwyo. Hefyd, nid ydynt bellach yn gallu fforddio llety rhent preifat. Nodir y rhesymau am hyn yn yr adran Sector Rhentu Preifat isod.

Wrth ymgysylltu â staff yn y Cyngor a rhanddeiliaid, amlygwyd sut mae'r pandemig wedi newid y dirwedd yn llwyr, a gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol:

- Y cynnydd cyflym yn nifer y bobl sydd mewn llety dros dro, yn enwedig yng nghanol Merthyr Tudful.
- Lefelau uwch o anghenion ar gyfer pobl sy'n cael eu cyfeirio at lety â chymorth a chymorth fel y bo'r angen.
- Mwy o achosion o anghenion sy'n cyd-ddigwydd, megis iechedd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.
- Heriau o ran symud pobl ymlaen o lety dros dro a llety â chymorth, ac effeithir ar hyn yn arbennig gan y ffaith bod llai o fynediad i'r sector rhentu preifat.
- Er bod enghreifftiau o gydweithio da gyda phartneriaid yn y system megis iechedd a'r gwasanaeth prawf yn y cyfnodau clo cychwynnol, mae hyn wedi lleihau a disgrifiodd rhanddeiliaid heriau sylweddol i gleientiaid fodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau iechedd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'r GIG. Mae hyn wedi golygu bod yn rhaid i'r Grant Cymorth Tai a'r gwasanaethau digartrefedd ymdrin â'r anghenion hynny.
- Gwnaeth rhanddeiliaid sylwadau ar yr her o dderbyn data gan bartneriaid yn y system fel y GIG, sy'n cyfyngu ar effeithiolrwydd cymorth a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Llety

Crynodeb

- Mae angen sylweddol am eiddo un a dwy ystafell wely yn y Fwrdeistref. Mae'r angen mwyaf am y rhain yn wardiau'r Dref, Dowlais, Gurnos, Cyfarthfa a Phenydarren.
- Daw 40 y cant o'r galw am lety un ystafell wely gan ymgeiswyr o dan 35 oed. Mae hyn yn rhoi pwysau ar ddarparu llety un gwely.
- Mae 35 o aelwydydd (ym mis Chwefror 2022) yn aros am eiddo wedi'i addasu. Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig partner i ddarparu llety hygyrch pellach, yn ogystal ag ariannu addasiadau drwy ei raglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl.
- Mae gan yr ardal gyfran sylweddol uwch o stoc tai hŷn nag mewn mannau eraill yng Nghymru, sy'n amlygu ei hun mewn cyfradd uchel o anheddau nad ydynt yn ffit, yn enwedig ymhlith tai teras. Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud i ddatgarboneiddio cartrefi presennol a'u codi i safonau Llywodraeth Cymru. At hynny, o fis Hydref 2021 ymlaen, bydd yr holl dai fforddiadwy newydd a ariennir gan grant yn cael eu hadeiladu yn unol â Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru 2021.
- Arweiniodd y pandemig at gynydd sylweddol yn nifer y bobl sydd angen Llety Dros Dro, ac roedd gan lawer ohonynt lefelau uchel o anghenion cymhleth. Comisiynodd y Cyngor wasanaethau cymorth ychwanegol i ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai mewn Llety Dros Dro yn lleol ac y tu allan i'r Fwrdeistref, gan gynorthwyo pobl i gadw'r lleoliadau hyn yn ystod y pandemig.
- Mae goblygiadau ariannol difrifol i'r Cyngor wrth barhau i ariannu'r lefel bresennol o Lety Dros Dro a chymorth.
- Yn hanesyddol, mae'r Sector Rhentu Preifat wedi bod yn adnodd sylweddol i ddarparu tai i bobl. Fodd bynnag, yn sgil y pandemig gwelwyd cynnydd cyflym yn y galw a rhenti cynyddol yn cael eu codi gan landlordiaid preifat. Mae'r Lwfans Tai Lleol yn parhau ar yr un lefel ac felly mae angen i bobl ariannu o leiaf £200 y mis yn ychwanegol i dalu'r rhenti cyfredol. Mae hyn yn golygu nad yw rhentu preifat yn bosibl bellach i lawer o bobl sy'n ddigartref.
- Mae gan y Cyngor raglen ddatblygu tair blynedd yn unol â Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac mae ar y trywydd iawn i ddarparu mwy na 150 o unedau o lety tai fforddiadwy dros y tair blynedd nesaf, ac mae 104 ohonynt yn llety un ystafell wely. Fodd bynnag, bydd y galw yn dal i fod yn fwy na'r cyflenwad.

Mae'r adran hon yn adolygu'r data ar argaeledd llety, yn benodol:

- Y galw presennol am ddyrannu
- Llety Dros Dro
- Y Sector Rhentu Preifat
- Cynllunio a thai newydd

Cofrestr Tai Cyffredin

Caiff eiddo Tai Cymdeithasol eu dyrannu drwy bolisi tai cyffredin y mae'r pedwar Landlord Cymdeithasol Cofrestredig partner yn y Fwrdeistref wedi ymrwymo iddo. Gofynnir i ymgeiswyr sy'n dymuno ymuno â'r gofrestr tai lenwi ffurflen gais ar-lein ac yna cânt eu bandio yn ôl lefel eu hangen am dai. Mae ein polisi dyrannu yn cynnwys tri band. Caiff band ei bennu i'r ymgeisydd yn ôl ei angen a'i ddewis rhesymol wedi'i asesu. Yn dibynnu ar y canlyniad, dyfernir dewis ychwanegol i ymgeisydd. Dyma'r tri band:

- Band 1 – Blaenoriaeth Uchel. Mae'r rhain yn ymgeiswyr sy'n deilwng o ddyfarniad statudol o ffafriaeth resymol ond y dyfernir blaenoriaeth ychwanegol iddynt yn seiliedig ar eu hanghenion brys am dai.
- Band 2 – Blaenoriaeth Ganolig. Mae'r rhain yn ymgeiswyr sy'n deilwng o ddyfarniad statudol o ffafriaeth resymol.
- Band 3 – Blaenoriaeth Isel. Mae'r rhain yn ymgeiswyr yr aseswyd nad ydynt yn y grŵp ffafriaeth ychwanegol na'r grŵp ffafriaeth resymol
- Dim band blaenoriaeth lle mae ymgeisydd yn gymwys i ymuno â'r gofrestr ond na ddyfarnwyd unrhyw flaenoriaeth iddynt oherwydd dyled sy'n ddyledus neu ymddygiad annerbyniol

Dyrennir eiddo yn unol â'r drefn ganlynol:

- Yr angen am ystafelloedd gwely
- Band Blaenoriaeth
- Amser aros yn y band a ddyrannwyd

Caiff ymgeiswyr eu rhoi ar restr fer yn gyntaf ar sail nifer yr ystafelloedd gwely i'w galluogi i wneud cais am bob eiddo, waeth beth fo nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo. Drwy hyn, os oes ymgeisydd sydd angen dwy ystafell wely yn gwneud cynnig am eiddo tair ystafell wely, caiff ei sicrhau bod aelwyd sydd angen tair ystafell wely yn cael ei rhoi ar y rhestr fer yn gyntaf.

Band	Nifer	Cyfran o'r Gofrestr Tai
Tri – Blaenoriaeth Isel	1796	64%
Dim blaenoriaeth oherwydd dyled sy'n ddyledus neu ymddygiad annerbyniol	146	5%


Tabl 3 Ymgeiswyr i'r Gofrestr Tai yn ôl band blaenoriaeth (Civica Ionawr 2022)

Fel y dangosir yn y tabl uchod, mae'r gofrestr tai yn cynnwys unigolion sydd ag anghenion tai amrywiol. Dyma'r prif resymau pam y dyfarnwyd eu bandiau priodol i unigolion ym mhob band:

Band 1	Band 2	Band 3
		denant PRS lle mae gan y angenrheidiol a'i fod o'r maint cywir i ddiwallu anghenion
Trais Domestig Difrifol	Anghenion Meddygol	Ceiswyr tai sy'n wynebu bygythiad o gael eu troi allan (dim achos llys)
Yn destun Dyletswydd Adran 75	Symud i fod yn agosach i gymorth	
Mewn Llety Dros Dro yn barod i symud ymlaen	Atal Digartrefedd	
Difrifol o Orlawn	Tenant landlord cymdeithasol cofrestredig yn symud i gartref llai o faint oherwydd fforddiadwyedd	
	Heb fod yn ymgysylltu â chymorth	
	Cysgwr ar y stryd wedi'i ddilysu	
	PRS neu berchen-feddiannydd mewn Caledi Ariannol	

Tabl 4 : Rhesymau dros ddosbarthu ymgeiswyr i'r gofrestr tai o bob band (Civica Ionawr 2022)


Mae cyfran uchel o ymgeiswyr wedi'u rhoi ym mand 3. Mae'r graff canlynol yn dangos nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen ym mhob band. Mae'r ymgeiswyr hynny sydd angen llety un ystafell wely 50+ wedi'u rhoi ar wahân.



Ffigur 13 Yr angen am ystafelloedd gwely ar y gofrestr tai yn ôl ward ar draws CBSMT (Mai 2021)

Mae'r data ar yr angen am dai wedi'i ddadansoddi o'r system ceisiadau tai bresennol. Mae'n cynnwys dadansoddiad o'r Angen am Dai yn ôl ward ac mae'n cynnwys categori 'Heb fynegi dewis' - defnyddir y categori hwn ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt wedi pennu ward yn y Fwrdeistref y maent yn dymuno byw ynddi.

Mae angen sylweddol am eiddo un a dwy ystafell wely yn y Fwrdeistref. Mae'r angen mwyaf am y rhain yn wardiau'r Dref, Dowlais, Gurnos, Cyfarthfa a Phenydarren. Mae'r graff canlynol yn dangos y manylion ar gyfer llety un person yn y Fwrdeistref:



Ffigur 14: Yr angen am dai un ystafell wely fesul ward yn CBSMT Mai 2021

Daw 40 y cant o'r galw am lety un ystafell wely gan ymgeiswyr o dan 35 oed. Mae hyn yn rhoi pwysau ar ddarpariaeth llety un ystafell wely, gan fod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr hyn ym mand 3 ac yn annhebygol o sicrhau tai cymdeithasol oni bai eu bod yn dod yn ddigartref.

Mae'r angen am lety un person ar ei uchaf yn Wardiau Cyfarthfa, Y Dref, Treharris, Penydarren, Dowlais a Gurnos. Bydd angen i ddatblygiadau yn yr ardaloedd hyn neilltuo 35% ar gyfer llety un person cyn i unrhyw gais am grant gael ei gymeradwyo. Fodd bynnag, disgwylir bod rhywfaint o lety un person yn cael ei ddarparu ar bob datblygiad newydd, waeth beth fo'r ward.

Tai Hygyrch

Nid oes rhestr aros ar wahân ar gyfer y llety hwn. Caiff ei ddyrannu a'i hysbysebu fel rhan o'r gofrestr tai cyffredin.

Rhoddir addasiadau i Gategori A lefel uchel a Chategori B lefel isel. Pan fydd gan eiddo addasiad categori A, bydd ymgeiswyr yn cael eu paru yn ôl eu hangen am yr addasiad ac yna edrychir ar eu hangen am ystafelloedd gwely. Diben hyn yw sicrhau bod y sawl sydd â'r angen mwyaf am yr addasiad hwnnw yn gallu cael cynnig y llety. Gan na ellir rhoi addasiadau categori A yn aml i eiddo sy'n bodoli eisoes, caiff yr angen am dai wedi'u haddasu ei asesu drwy ystyried yr anghenion hyn yn unig.

Mae'n amlwg bod angen rhagor o unedau tai Categori A sy'n gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn ac sy'n darparu bath arbenigol.

	Mynediad Llaw'n i Gadair Olwyn	Bath Arbenigol	Offer Codi o'r Nenfwd	Lifft Drwy'r Llawr
Anghenion Tai	61	55	9	9

Tabl 5 Anghenion Tai Categori A – Ionawr 2022 (Civica)

Mae gan dîm Therapydd Galwedigaethol Cymunedol y Cyngor restr aros o 35 o aelwydydd (ym mis Chwefror 2022) sy'n aros am eiddo wedi'i addasu. Efallai y bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y rhif hwn a'r data uchod a ddaw o'n Cofrestr Tai, ond mae'n amlwg bod angen parhaus am eiddo hygyrch yn y fwrdeistref.

Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig partner i ddarparu rhagor o lety hygyrch, yn ogystal ag ariannu addasiadau drwy ei raglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn y sector tai preifat a fforddiadwy er mwyn sicrhau y gall pobl aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain a gwneud y mwyaf o'u hannibyniaeth.

Proffil o'r Stoc Dai / Daliadaeth

Am fod adolygiadau wedi'u gohirio gan bandemig COVID-19, roedd yr Asesiad diwethaf o'r Farchnad Dai Leol yn cwmpasu 2014-19. Bryd hynny roedd 24,264 o dai yn y Fwrdeistref. Mae gan yr ardal gyfran sylweddol uwch o stoc tai hŷn nag mewn mannau eraill yng Nghymru, sy'n amlygu ei hun mewn cyfradd uchel o dai sydd heb fod yn ffit, yn enwedig ymhlith tai teras. Y math mwyaf cyffredin o ddeiliadaeth oedd Perchen-feddiannydd, a oedd yn cyfrif am 65% o'r farchnad. Roedd rhentu preifat yn cyfrif am 11% o gyfanswm y farchnad, a thai cymdeithasol 21%. Tai teras yw'r math mwyaf cyffredin o dai ym Merthyr Tudful, sy'n cyfrif am 50% o'r farchnad. Mae'r rhain hefyd yn ganran fawr o werthiannau i brynwyr tro cyntaf oherwydd argaeledd a phrisiau is tai teras.

Trosglwyddodd yr Awdurdod Lleol ei stoc dai i gymdeithas dai newydd – Cartrefi Cymoedd Merthyr yn 2009. Mae hyn wedi arwain at bedwar landlord cymdeithasol Cofrestredig yn y Fwrdeistref gyda chyfanswm o 5889 o unedau o stoc rhentu cymdeithasol, ar ddiwedd 2021.

Cymdeithas Dai	Stoc Dai (nifer yr unedau)
Cymdeithas Tai Merthyr Tudful	1162
Wales & West	478
Hafod	186

Tabl 6: Stoci Dai Rhentu Cymdeithasol ym Merthyr Tudful yn ôl Cymdeithas Dai

O ystyried oedran a phroffil cyfran sylweddol o stoc dai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud i ddatgarboneiddio cartrefi presennol a'u codi i'r safon fel rhan o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, Llywodraeth Cymru.

At hynny, o fis Hydref 2021 ymlaen bydd yr holl dai fforddiadwy newydd a ariennir gan grant yn cael eu hadeiladu yn unol â Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru 2021, sy'n cefnogi'r agenda datgarboneiddio drwy sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu gyda'r nod o fod yn garbon isel, a lle bo'n bosibl yn ddi-garbon.

Llety dros dro

Mae newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth digartrefedd o ganlyniad i bandemig Covid 19, a chymhwysedd i gael cymorth, wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y cyflwyniadau digartrefedd ers mis Mawrth 2020. Mae CBS Merthyr Tudful yn defnyddio'r mathau canlynol o lety fel llety dros dro:

- Llety Lloches
- Hosteli
- Fflatiau sy'n eiddo i landlord cymdeithasol cofrestredig / cymdeithas dai
- Cynlluniau tai â chymorth
- Llety Gwely a Brecwast
- Tai Amlfeddiannaeth (llety a rennir)

Isod ceir dadansoddiad o leoliadau llety dros dro ym mis Rhagfyr 2021².

Math o lety	Nifer yr aelwydydd
Lleoliadau gwely a brecwast	96
Llety amlfeddiannaeth a rennir	9
Hillfort Court	6 (4 lleoliad + 2 mewn ystafelloedd brys)

Unedau Llety Dros Dro – Cartrefi Cymoedd Merthyr a Hafod	14
Cyfanswm nifer y lleoliadau	157

Er mwyn nodi anghenion y rhai sy'n byw mewn llety dros dro, cynhaliodd y Cyngor ymarfer mapio o 157 o bobl a oedd yn byw mewn llety dros dro ym mis Rhagfyr 2021.

O hyn, canfuwyd bod gan 77 o bobl anghenion cymorth uchel a dwys, sy'n cynrychioli ychydig o dan hanner y bobl sy'n byw *Tabl 7 Dadansoddiad o leoliadau llety dros dro ym mis Rhagfyr 2021* mewn llety dros dro neu ar restr aros llety dros dro ym mis Rhagfyr. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen clir i ehangu'r ystod o lety gan gynnwys Tai yn Gyntaf a rhagor o unedau o lety â chymorth ar draws y fwrdeistref, yn ogystal â chefnogi'r agenda ailgartrefu cyflym.

Lefel yr Angen	Nifer yr Unigolion	Cyfran y bobl sy'n preswyllo mewn llety dros dro Gorffennaf 2021
Canolig	39	25%
Uchel	38	24%
Dwys	39	25%

Tabl 8 Lefelau'r angen mewn llety dros dro, Rhagfyr 2021

Comisiynodd y Cyngor wasanaethau cymorth ychwanegol i ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai mewn llety dros dro yn lleol a'r tu allan i'r Fwrdeistref, gan gefnogi pobl i gadw'r lleoliadau hyn yn ystod y pandemig.

Oherwydd cynnydd arall mewn cyflwyniadau ar y pryd, dechreuodd y Tîm Atebion Tai weithredu rhestrau aros ar gyfer darparu llety dros dro, gan effeithio ar y gallu i gyflawni dyletswyddau statudol. Oherwydd diffyg llety un person fforddiadwy yn y Fwrdeistref, mae'r llety i symud ymlaen iddo yn gyfyngedig iawn ac nid oes digon o stoc Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar gael i ateb y galw presennol. Rhagwelir y bydd llawer o bobl yn aros mewn llety gwely a brecwast a mathau eraill o lety dros dro am gryn amser hyd nes y gellir dod o hyd i lety parhaol. Yn 2020/21, daeth 58 uned o lety

un person ar gael ar draws pob un o'r 4 Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ym Merthyr Tudful. ³

Mae'r gwasanaethau hefyd yn sylwi ar newidiadau yn nisgwyladau ac ymddygiad defnyddwyr gwasanaeth, gyda mwy o ymdeimlad o hawl i lety dros dro. Mae'n ymddangos bod llawer yn dod â lleoliadau llety â chymorth i ben yn fwriadol yn y gobaith o gael cynnig llety dros dro gwahanol mewn llety gwely a brecwast lle mae'n debygol y bydd llai o graffu o gymharu â phrosiectau llety â chymorth 24/7. Mae rheolwyr hosteli yn dweud bod defnyddwyr gwasanaeth yn gwrthod talu eu cyfraniad personol (rhwng £10-12 yr wythnos) sy'n rhan o'r cytundeb trwydded, yn y gobaith y cânt eu troi allan, gan wybod y bydd gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gynnig llety arall. Mae hyn, ynghyd â rhai o'r gwasanaethau allgymorth gwirfoddol sy'n cael eu defnyddio (e.e. parseli bwyd), wedi annog defnyddwyr gwasanaeth i beidio â dymuno cyllidebu a dechrau cynilo wrth baratoi ar gyfer symud ymlaen i lety parhaol. ⁴

Goblygiadau Ariannol

Bu cynnydd esbonyddol cyflym iawn mewn costau oherwydd gofynion llety dros dro. Heb gamau uniongyrchol i ddod o hyd i ffynonellau eraill o lety dros dro, mae amcanestyniadau ar gyfer 2021-22, yn seiliedig ar y galw presennol, ynghyd â chostau diogelwch mewn tri gwesty, yn dod i £2,045.000.00. Gyda chostau craidd, daw hyn i gyfanswm o: £2,398.000.00. Mae cyllideb flynyddol hanesyddol o £181K ar gyfer costau llety craidd. Mae'r Cyngor wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru i gymeradwyo ein cais ar gyfer bob llety dros dro am £1,856.000.00 ar gyfer 2022-23. Fodd bynnag, os cytunir arno, mae'n annhebygol y bydd y Cyngor yn gallu cael gafael ar lawer (os o gwbl) o'r £10 miliwn o arian grant Atal Digartrefedd ar gyfer 2022-23.

Sector rhentu preifat

Bu'r defnydd o lety a ddarperir gan landlordiaid preifat yn rhan hanfodol o ddarparu llety i atal digartrefedd neu i symud ymlaen o lety dros dro.

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i arolygu cartrefi er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr addas. Eir i'r afael â hyn yn awr ond mae ôl-groniad o arolygiadau.

Mae Deddf Tai 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i drwyddedu tai amlfeddiannaeth. Gelwir hyn yn drwyddedu gorfodol. Mae trwyddedu gorfodol ar gyfer tai amlfeddiannaeth yn gynllun sy'n berthnasol ledled y DU. Nid yw'r cynllun ond yn berthnasol i dai amlfeddiannaeth sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Mae'r tî amlfeddiannaeth neu unrhyw ran ohono yn cynnwys tri llawr neu fwy; ac

3 Housing and HSG Highlight report for January 2021 to September 2021

4 Homelessness and Housing Update Scrutiny Report 16 November 2021

- Mae'n cael ei feddiannu gan bump neu fwy o bobl; ac
- Mae'n cael ei feddiannu gan bersonau sy'n byw mewn dwy neu fwy o aelwydydd un person, ac yn rhannu cyfleusterau.

Ar hyn o bryd mae dau eiddo ym Merthyr Tudful sy'n gymwys i gael trwydded fel Tŷ Amlfeddiannaeth ond nid oes cynlluniau i weithredu mwy yn y dyfodol agos. Mae hyn wedi bod yn heriol am nifer o resymau gan gynnwys; cyflymder y farchnad dai a'r gallu i brynu eiddo addas, addasrwydd Tai Amlfeddiannaeth i'r gymuned leol a faint o ymgynghori cymunedol sydd ei angen. Mae'r Cyngor wedi sefydlu partneriaeth gyda D2PropCo i ystyried addasrwydd ac opsiynau o ran eiddo penodol ac ers mis Medi 2020, ystyriwyd addasrwydd 27 eiddo posibl i fod yn Dai Amlfeddiannaeth, ac ni wnaeth yr un ohonynt fynd ymlaen i gael eu datblygu.

Fforddiadwyedd

Mae'r Lwfans Tai Lleol yn darparu hawl budd-dal tai i denantiaid sy'n rhentu llety yn y sector preifat yng Nghymru, a chaiff ei dalu i'r rhai sydd ei angen i rentu lle diogel i fyw ynddo. Yn 2016, cyhoeddodd y llywodraeth fod cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn cael eu rhewi'n llwyr, sydd wedi golygu bod llawer o aelwydydd wedi cael trafferth talu'r gwahaniaeth rhwng eu rhent a'u Lwfans Tai Lleol. Yn ôl gwaith ymchwil gan Crisis,⁵ nid mater i Ferthyr Tudful yn unig yw hyn. Mae tanfuddsoddi mewn cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn golygu, mewn 82% o ardaloedd yng Nghymru, mai dim ond un rhan o bump neu lai o'r sector rhentu preifat sy'n fforddiadwy o fewn y cyfraddau i bobl unigol, cyplau neu deuluoedd bach.

Mae cost rhentu preifat yn newid yn gyflym, gan olygu nad yw'r wybodaeth sydd wedi'i dilysu'n genedlaethol yn gyfoes. Fodd bynnag, canfuwyd rhenti lleol dangosol ar [home.co.uk](https://www.home.co.uk) sy'n crynhoi'r rhenti a hysbysebir ar gyfer tai i'w gosod, wedi'u cyfrifo'n ddyddiol o'r eiddo rhent a ganfuwyd gan beiriant chwilio eiddo [home.co.uk](https://www.home.co.uk). Caiff hyn ei gymharu chyfraddau presennol y Lwfans Tai Lleol.

Maint yr Eiddo	Lwfans Tai Lleol 2021 22	Rhent Cyfartalog ⁶
Dwy Ystafell Wely	£375 y mis	£610 y mis
Tair Ystafell Wely	£425 y mis	£765 y mis
Pedair Ystafell Wely	£650 y mis	Dim ar gael

Tabl 9: Rhenti cyfartalog y mis ym Merthyr Tudful o gymharu â Lwfansau Tai Lleol

Os ydych mewn cyflogaeth ym Merthyr Tudful mae rhentu yn sector y farchnad breifat yn prysur

5 Cover the Costs: How Gaps in Local Housing Allowance are impacting Homelessness, Mai 2019

6 https://www.home.co.uk/for_rent/merthyr_tydfil/current_rents?location=merthyr_tydfil

ddod yn llai fforddiadwy. Fodd bynnag, mae'r sector rhentu preifat yn anfforddiadwy os yw'r aelwyd yn dibynnu ar Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol i dalu eu rhent.

Er mwyn gwneud gwell defnydd o'r sector hwn, mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi penodi Swyddog Sector Rhentu Preifat i weithio gyda'r sector i sicrhau bod y math hwn o dai ar gael fel opsiwn hyfyw a chynaliadwy i'r rhai sydd ar ein Cofrestr Tai. Mae'r rôl yn cynnwys:

- sefydlu perthynas waith gyda landlordiaid yn y fwrdeistref a chwalu'r rhwystrau a'r camsyniadau sy'n bodoli wrth weithio gyda chleientiaid digartref.
- cefnogi landlordiaid a thenantiaid drwy sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i'r ddwy ochr i gefnogi cynaliadwyedd tenantiaethau.
- Archwilio'r potensial i gymryd rhan yng nghynllun prydlesu Llywodraeth Cymru a fyddai'n golygu bod yr Awdurdod Lleol yn ymgymryd â chyfrifoldebau rheoli eiddo. Bydd y cynllun hwn yn golygu bod eiddo'n cael ei brydlesu gan awdurdod lleol i helpu i atal a lliniaru digartrefedd. Yn ogystal, bydd tenantiaid sy'n cael eu lletya yn derbyn lefel uchel o gymorth i helpu i gynnal eu tenantiaeth. Bwriad y Cynllun yw bod o fudd i denantiaid, perchnogion eiddo ac awdurdodau lleol.

Tai Gwag

Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod Lleol 1004 o eiddo gwag yn y fwrdeistref. O'r rhain, mae 591 wedi bod yn wag ers dros chwe mis ac maent yn cael eu hystyried yn eiddo gwag hirdymor. Mae'r nifer hwn yn amrywio'n ddyddiol, ond byth yn fwy na plws / minws 50 y flwyddyn, felly mae'r ffigwr sydd wedi'i roi yn fesur da.

Fel rhan o'n swyddogaeth tai strategol gynyddol i greu cysylltiadau cryfach yn fewnol i weithio gyda chydweithwyr CBSMT ar draws ystod o adrannau i fynd i'r afael â'n hangen corfforaethol am dai, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol i nodi eiddo gwag lle gallai iechyd yr amgylchedd fod yn edrych ar achosion posibl o orfodi gwerthiant, neu lle maent mewn cyswllt â pherchnogion preifat sy'n dymuno gwerthu. Gyda'r eiddo hyn, rydym yn bwriadu trafod ynglŷn â'r potensial i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu prynu i'w adnewyddu a'u gosod i denantiaid cymdeithasol i helpu i gynyddu unedau llety.

I gefnogi hyn, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gynllunio i nodi unrhyw arian Adran 106 sydd ar gael, yn ogystal ag unrhyw arian grant drwy'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol (gan gynnwys Grant Ailgylchu Cyfalaf) y gellir ei ddefnyddio i helpu i brynu ac adnewyddu eiddo sydd, ar y cyfan, angen gwaith sylweddol neu hyd yn oed eu dymchwel a'u hailadeiladu'n llwyr.

Mae ystyriaethau hefyd yn cael eu trafod ynglŷn â'r posibilrwydd o weithio gyda landlordiaid preifat

fel rhan o gynllun prydlesu posibl gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n golygu bod yr Awdurdod Lleol yn ymgymryd â chyfrifoldebau rheoli eiddo.

Mae'r Cyngor yn ystyried ardaloedd / eiddo sydd ar hyn o bryd yn ddadfeiliedig, wedi'u hesgeuluso a / neu y mae angen eu hatgyweirio'n sylweddol ar draws y fwrdeistref i'w troi'n dai fforddiadwy / fflatiau â grisiau / tai 1 ystafell wely.

Sipsiwn a Theithwyr

Drwy'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2018, sefydlwyd nad oes angen lleiniau ychwanegol ym Merthyr Tudful dros y pum mlynedd nesaf.

Cynllunio ac adeiladu

Mae gan y Cyngor raglen ddatblygu tair blynedd yn unol â Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac mae ar y trywydd iawn i ddarparu mwy na 150 o unedau o lety tai fforddiadwy dros y tair blynedd nesaf, ac mae 104 ohonynt yn llety un ystafell wely. Mae'r unedau hyn yn cynnwys datblygiadau sydd â gwaith yn 'fyw ar y safle' ar hyn o bryd a'r rhai sydd heb ddechrau eto ond sydd i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2024. Mae'r Cyngor yn disgwyl dechrau ar ddatblygiadau tua diwedd 2022/23 ac yn ystod 2023/4 a fydd yn darparu 130 yn rhagor o unedau tai fforddiadwy, yn barod i'w defnyddio ar ôl 2023/4

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae capasiti ein Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig partner presennol wedi tyfu ac mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill bellach yn dod ymlaen i gefnogi ein rhaglen ddatblygu garlam. Yn sgil hyn, ceir mwy o gapasiti datblygu yn ogystal â datblygiadau strategol wedi'u hailfywiogi i gefnogi ein hangen corfforaethol.

Gwasanaethau grant cymorth tai

Crynodeb

- Y prif angen i bobl gael eu hatgyfeirio am gymorth sy'n gysylltiedig â thai yn 20/21 oedd:
 - Atal digartrefedd
 - Iechyd meddwl
 - Trais domestig
 - Hanes o droseddu
 - Pobl unigol 25 54 oed
 - Pobl ifanc 16 24 oed
- Iechyd meddwl oedd yr angen mwyaf cyffredin ymhlith yr anghenion eilaidd.

Mae'r adran hon yn ystyried anghenion pobl sy'n cyflwyno'n bennaf ar sail rhywbeth heblaw digartrefedd, er mai'r realiti yw bod pobl yn cyflwyno ag anghenion lluosog, a gall fod yn anodd nodi prif angen. Mae'r Grant Cymorth Tai fel arfer yn ariannu gweithgareddau cymorth drwy:

- Llety â Chymorth
- Cymorth fel y bo'r angen

Mae'r tabl isod yn rhestru'r mathau o gymorth sydd ar gael.

Prosiect	Darparwr	Swyddogaeth
Ailgartrefu Cyflym		
*Noder: Cyfanswm unedau Tai yn Gyntaf = 12 (4 o'r rhain wedi'u hariannu drwy Grant Cymorth Tai)		
		*4
		Gwasanaeth galw heibio
Prosiect Street Smarts	Pobl	Rôl
Allgymorth Grymusol	CBSMT	Rôl
Cydymffurfiaeth â Rhentu Doeth Cymru	CBSMT	Cydymffurfiaeth â Rhentu Doeth Cymru a'i hyrwyddo
Cymorth fel y bo'r Angen		

Prosiect	Darparwr	Swyddogaeth
	Bawso, Cymorth fel y bo'r Angen	
	Platfform (Anghenion Cymhleth)	
	Platfform (Cysylltiadau Adfer)	
	Cyngor ar Bopeth Merthyr, Cymorth Covid	

Prosiect	Darparwr	Swyddogaeth
	Byddin yr Iachawdwriaeth (Achub Tenantiaeth)	8
	Cartrefi Cymoedd Merthyr	70
	CBSMT (Parod am Denantiaeth)	Hyfforddiant
Llety â Chymorth Dros Dro		
		8
	Pobl Chaplins	10
Cyffredinol	Pobl Garth Villas	10
	Marsh House 10 gwely	10
	NLC Lefel Isel, Pobl Ifanc	5
TBC	Prosiect Anghenion Cymhleth 24 awr 5 gwely	5
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol		
		7
Arall (unedau gwasgaredig)	Llamau	2
Offer Gwella Diogelwch	Gofal a Thrwsio	30

Tabl 10 Gwasanaethau a ariennir gan Grant Cymorth Tai, Chwefror 2022

Atgyfeiriadau ar gyfer Gwasanaethau a Ariennir gan y Grant Cynnal Tai

Mae'r adran hon yn crynhoi'r atgyfeiriadau ar gyfer llety â chymorth a chymorth fel y bo'r angen ar gyfer 2020-21. Mae tablau 11-13 isod yn dangos y prif angen a'r anghenion eilaidd a thrydyddol a dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 lle y gwnaeth 706 o bobl/aelwydydd gais i'r Awdurdod Lleol am gymorth sy'n gysylltiedig â thai. Mae'r rhain yn dangos eu prif angen a gallai'r defnyddwyr gwasanaeth fod wedi nodi angen eilaidd neu drydyddol am gymorth hefyd. Mae'n werth nodi hefyd, er mai dim ond 11 o bobl a nododd mai camddefnyddio sylweddau yw eu prif angen ar eu ffurflen atgyfeirio, bod y mwyafrif helaeth o'r rhai a oedd yn chwilio am lety â chymorth wedi datgelu rhywfaint o ddibyniaeth ar sylweddau naill ai mewn asesiad neu yn ystod sesiynau cymorth. Gallai'r stigma a'r amharodrwydd i ddatgelu dibyniaeth ar sylweddau neu, yn wir, alcohol, olygu nad yw'r ffigurau'n adlewyrchu'n llawn anghenion y rhai sy'n derbyn cymorth.

Cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i Atal Digartrefedd	158
Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl	114
Menywod sy'n profi Trais Domestig	88
Pobl Unigol 25-54 sydd ag Anghenion Cymorth Heb eu Cynnwys Rywle Arall yn y Rhestr Hon	72
Pobl Ifanc ag Anghenion Cymorth (16-24)	55
Teuluoedd Un Rhiant ag Anghenion Cymorth	31
Anabledd Corfforol a/neu Anabledd ar y Synhwyrâu	26
Pobl â Hanes o Droseddu	69
Pobl dros 55 oed sydd ag anghenion cymorth	35
Pobl sy'n Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)	11
Pobl ag Anableddau/Anawsterau Dysgu	26
Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal	10

Tabl 11 Prif angen pobl sy'n edrych am gymorth a ariennir gan y Grant Cymorth Tai 2020-21⁷

Anghenion Eilaidd	Cyfanswm
	132
Menywod sy'n profi Trais Domestig	11
Pobl Unigol 25-54 sydd ag Anghenion Cymorth Heb eu Cynnwys Rywle Arall yn y Rhestr Hon	18
Pobl Ifanc ag Anghenion Cymorth (16-24)	28
Teuluoedd Un Rhiant ag Anghenion Cymorth	33
Anabledd Corfforol a/neu Anabledd ar y Synhwyrâu	36
Pobl â Hanes o Droseddu	44
Pobl dros 55 oed sydd ag anghenion cymorth	22
Pobl sy'n Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)	52
Pobl ag Anableddau/Anawsterau Dysgu	12
Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal	1
Pobl sy'n Camddefnyddio Sylweddau (Alcohol)	37
Pobl â Salwch Cronig (gan gynnwys HIV/AIDS)	10

Dynion sy'n profi Trais Domestig	1
Pobl ag Anhwylder Datblygiadol e.e. Awtistiaeth	3
Pobl â statws Ffoaduriaid	0
Cyfanswm	513

Tabl 12 Angen eilaidd yr atgyfeiriad 2020-21

Angen Trydyddol	Cyfanswm
Pobl â Phroblem Iechyd Meddwl	10
Menywod sy'n profi Trais Domestig	1
Pobl Unigol 25-54 sydd ag Anghenion Cymorth Heb eu Cynnwys Rywle Arall yn y Rhestr Hon	4
Pobl Ifanc ag Anghenion Cymorth (16-24)	0
Teuluoedd Un Rhiant ag Anghenion Cymorth	4
Anabledd Corfforol a/neu Anabledd ar y Synhwyrau	3
Pobl â Hanes o Droseddu	3
Pobl dros 55 oed sydd ag anghenion cymorth	1
Pobl sy'n Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)	6
Pobl ag Anableddau/Anawsterau Dysgu	0
Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal	0
Pobl sy'n Camddefnyddio Sylweddau (Alcohol)	6
Pobl â Salwch Cronig (gan gynnwys HIV/AIDS)	1
Dynion sy'n profi Trais Domestig	0
Pobl ag Anhwylder Datblygiadol e.e. Awtistiaeth	0

Tabl 13 Angen trydyddol yr atgyfeiriad 2020-21

Dealltwriaeth o'r anghenion cymorth tai mwyaf sylweddol

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y data ar anghenion o'r Asesiad Poblogaeth, data atgyfeirio ac adborth rhanddeiliaid ar gyfer pob maes angen a nodwyd yn yr asesiad sy'n cyd-fynd ag anghenion pobl ddigartref a phobl sy'n cael eu cefnogi gan y Grant Cymorth Tai.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dwyn ynghyd bob rhan o wasanaethau gofal a chymorth a'r ffyrdd y cânt eu darparu. Gosododd y Ddeddf 'ddyletswydd' ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ynghyd â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a'u partneriaid i gynnal asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth. Cyhoeddwyd yr asesiad poblogaeth yn 2017 ac mae'n cael ei gynnal eto ar hyn o bryd yn unol â'r cylch statudol, ar gyfer ardal gyfan Cwm Taf Morgannwg.

Iechyd Meddwl

Crynodeb

- Mae Merthyr Tudful ymhlith yr uchaf yng Nghymru o ran achosion o gamddefnyddio sylweddau, salwch meddwl a lles gwael.
- Mae'r Cyngor yn derbyn nifer sylweddol o atgyfeiriadau am wasanaethau Grant Cymorth Tai ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl ac yn y gorffennol gwelwyd cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn atgyfeiriadau iechyd meddwl ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd hyn yn codi'n sylweddol yn sgil pandemig COVID 19.
- Mae anghenion tai sylweddol heb eu diwallu ar gyfer oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Caiff problemau tai yn aml eu rhoi fel rheswm dros dderbyn neu ail dderbyn person i ofal iechyd meddwl cleifion mewnol. Mae pobl â salwch meddwl yn llawer mwy tebygol o fyw mewn llety rhent ac mae eu salwch meddwl yn aml yn cael ei roi fel prif reswm dros dorri tenantiaeth.
- Cyfeiriodd rhanddeiliaid at y lefelau uwch o gymhlethdod a risg mewn gwasanaethau cymorth ers y pandemig.
- Lle mae sawl asiantaeth yn chwarae eu rhan, mae trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn hanfodol er mwyn sicrhau'r gofal gorau posibl i unigolion. Gellid gwella'r broses o gasglu data ar draws asiantaethau, a sicrhau ei bod yn cyd-fynd â fframweithiau cenedlaethol y cytunwyd arnynt er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol yn well.


Mae'r Asesiad Poblogaeth dangos mai Merthyr Tudful a Chwm Taf yn ehangach sydd â'r cyfraddau uchaf o salwch meddwl a lles gwael yng Nghymru. Mae'r darlun heriol o ran iechyd meddwl a lles oedolion ym Merthyr Tudful i'w weld yn y data diweddaraf sydd ar gael ar draws ystod o fesurau, a grynhowyd yn y tabl isod.

Dangosydd	Merthyr Tudful	Cwm Taf	Cymru	Beth mae hyn yn ei olygu
			24%	
Sgôr crynodyn y gydran feddyliol (mesuriad o les)	47.0	48.2	49.4	Cwm Taf sydd â'r sgôr isaf o les yng Nghymru
Oedolion a nododd eu bod yn derbyn triniaeth am salwch meddwl	18%	16%	14%	Cwm Taf yw'r uchaf yng Nghymru
Cyfradd hunanladdiad / 100,000 o'r boblogaeth 2014		14.1	10.7 - 14.1	Cwm Taf yw'r uchaf yng Nghymru

Ffigur 12 Ystod o fesuriadau lles meddyliol 2017 (Ffynonellau: Arolwg Iechyd Cymru / Uned Ddata Llywodraeth Cymru / Adroddiad NCISHP)

Mae anghenion tai sylweddol heb eu diwallu ar gyfer oedolion â phroblemau iechyd meddwl. Mae problemau tai yn aml yn cael ei roi fel rheswm dros dderbyn neu ail-dderbyn person i ofal iechyd meddwl cleifion mewnol. Mae pobl â salwch meddwl yn llawer mwy tebygol o fyw mewn llety rhent ac mae eu salwch meddwl yn aml yn cael ei roi fel rheswm pwysig dros fod tenantiaeth yn dod i ben. Gallai llety fod wedi'i gynnig iddynt mewn ardaloedd nad ydynt yn gefnogol e.e. mewn ardaloedd lle y mae'n hysbys bod yno broblemau cyffuriau / ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n effeithio ar eu gallu i gynnal iechyd meddwl da. Mae'r rheini sydd â thenantiaethau yn aml yn wynebu cael eu troi allan oni bai bod cymorth tenantiaeth priodol yn cael ei ymgorffori mewn cynlluniau gofal. Mae darparu cymorth cymunedol ehangach fel tai, cyngor ar ddyledion/cyflogaeth, a chyfleoedd cymdeithasol yn cefnogi lles, yn cysylltu ag egwyddorion gofal iechyd darbodus ac yn gwneud dim ond yr hyn sydd ei angen.⁸

Bydd y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth hŷn yn arwain at lefelau uwch o ddementia, a chaiff hyn effaith fawr ar yr angen i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth i'r grŵp hwn.



Ffigur 13 Amcangyfrif o'r boblogaeth sydd â dementia 2015-2035 Merthyr Tudful

Gwnaeth yr Asesiad Poblogaeth bwysleisio bod y data'n gyfyngedig, neu wedi'i gasglu mewn ffordd wael ac yn anghyson. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn asesu angen a chynllunio gwasanaethau. Mae gan y gwahanol asiantaethau sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i rai â phroblemau iechyd meddwl eu systemau casglu data eu hunain, yn dibynnu ar eu gofynion ariannu, atebolrwydd a llywodraethu. Fodd bynnag, roedd yn aml yn aneglur sut y defnyddiwyd data i lywio darpariaeth y gwasanaethau y mae pobl â phroblemau iechyd meddwl wedi'u nodi – felly ceir bylchau mewn gwasanaethau ataliol.

Mae'n amlwg felly y dylid gwella'r broses o gasglu data ar draws asiantaethau, a'u gwneud yn gydnaws â fframweithiau cenedlaethol y cytunwyd arnynt er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol yn well.

Mae atgyfeiriadau i wasanaethau Grant Cymorth Tai yn cofnodi prif anghenion ac anghenion eilaidd a thrydyddol. Iechyd meddwl oedd yr ail brif angen ond un a hwn hefyd oedd â'r nifer fwyaf o achosion ymhlith yr anghenion eilaidd.

Mae Merthyr Tudful ymhlith yr ardaloedd sydd â'r nifer fwyaf o achosion o gamddefnyddio sylweddau, salwch meddwl a lles gwael yng Nghymru. Mae'n gyffredin i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a gaiff eu cyfeirio at wasanaethau Grant Cymorth Tai hefyd fod yn camddefnyddio sylweddau. Yn flaenorol, gwelodd y Cyngor gynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn atgyfeiriadau iechyd meddwl i'r Grant Cymorth Tai, fodd bynnag, rhagwelir y bydd hyn yn codi'n sylweddol yn sgil pandemig COVID-19.

Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, codwyd nifer o bryderon ynghylch anghenion iechyd meddwl defnyddwyr gwasanaethau:

- Mae rhai pobl mewn llety hostel sydd ag anghenion iechyd meddwl sy'n uwch na lefel y

cymorth y gellir ei gynnig. Mae Timau Iechyd Meddwl Cymunedol yn ymwneud â hyn ac o'u hasesiad hwy mae'r risg yn uwch na'r hyn y mae'r gwasanaeth wedi'i ddylunio i ymdrin â hi.

- Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio egwyddorion yr Amgylchedd sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag anghenion sy'n deillio o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae angen parhau i ddatblygu hyn.
- Mae llochesau'n parhau i gael atgyfeiriadau gan bobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl risg uchel.
- Mae yna her o ran diwallu anghenion pobl nad ydynt yn bodloni meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, ond y mae eu hanghenion yn uwch na'r hyn y mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai wedi'i ddylunio i'w diwallu.
- Mae yna heriau o ran cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i'r rhai sydd ag anghenion uchel a'r rhai nad yw eu hanghenion yn bodloni meini prawf cymhwysedd.
- Cafwyd rhagor o adroddiadau am broblemau rhwng cymdogion gan fod pobl gartref yn amlach. Mae rhwystredigaethau'n cynyddu a gallant arwain at ddatgloi sefyllfaoedd cymhleth y mae angen mynd i'r afael â nhw mewn partneriaeth â phartneriaid iechyd ac eraill yn y system.
- Cyfeiriodd rhanddeiliaid strategol at bwysigrwydd rhannu data a gwybodaeth yn well.
- Mae angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hwyluso rhannu gwybodaeth a chael llwybrau cliriach i rhanddeiliaid gyfrannu at weithio rhanbarthol.

Yn ôl gwaith ymchwil a wnaed yn 2020 i asesu anghenion iechyd pobl ddigartref ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, roedd pobl ddigartref o'r farn bod cael gafael ar gymorth yn anodd i'r rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gofal iechyd meddwl arbenigol/eilaidd, ac y mae eu symptomau'n cael eu hystyried y tu allan i gwmpas gwasanaethau sydd â'r nod o reoli problemau iechyd meddwl cyffredin.

Yn aml, ychydig iawn o allu oedd gan ofal sylfaenol, lle mae'r rhan fwyaf o bobl â chyflyrau iechyd meddwl cyffredin yn cael eu trin, i gefnogi'r rhai sy'n cyflwyno â chyflyrau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd. Roedd deall y llwybrau amrywiol a chymhleth i wasanaethau iechyd meddwl yn ddryslyd i staff cymorth tai a phobl ddigartref ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - yn enwedig o ran sut roedd meddygon teulu, Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, Timau Argyfwng, timau digartrefedd arbenigol a gweithwyr meddygol proffesiynol mewn ysbytai yn ymwneud â'i gilydd.

Argymhellodd yr adroddiad y dylid cynnull fforwm presennol, neu grŵp newydd, i oruchwylio'r gwaith

o weithredu'r camau strategol sy'n deillio o'r adroddiad..⁹

Camddefnyddio Sylweddau

Crynodeb

- Dyma'r rhanbarth sydd â'r niferoedd uchaf o bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau o gymharu â gweddill Cymru.
- Mae gan nifer fawr o bobl sydd angen gwasanaethau Grant Cymorth Tai broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd ddigwydd. Mae'r rhain yn arbennig o heriol i wasanaethau cymorth gael gwasanaethau trin iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'r GIG i ymwneud â'r mater.
- Mae gwasanaeth rhanbarthol arbenigol newydd bellach ar waith, ond mae'n rhy gynnar i'w werthuso'n llawn.

Dyma'r rhanbarth sydd â'r cyfraddau uchaf o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru. Mae data o Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau yn dangos yr angen parhaus am wasanaethau ar draws Cwm Taf, gyda thua 3,000 o atgyfeiriadau i wasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cael eu derbyn yn flynyddol ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2013 i fis Mawrth 2016.¹⁰

Gall camddefnyddio sylweddau effeithio ar bobl waeth beth fo'u cefndir oedran neu eu tarddiad ethnig a gall hefyd arwain at broblemau sylweddol ym mywydau pobl. Y Bwrdd Cynllunio Ardal sy'n gyfrifol am gyflawni Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru yn ardal Merthyr Tudful.

Nifer isel o atgyfeiriadau a wneir i wasanaethau Grant Cymorth Tai sydd â Chamddefnyddio Sylweddau yn brif angen, ond mae adborth rhanddeiliaid yn dangos ei fod yn ymddangos yn angen i nifer sylweddol o atgyfeiriadau unwaith y bydd y cymorth yn dechrau.

Mynediad at Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

Yn ôl yr Asesiad Cyflym o Anghenion Iechyd pobl a oedd yn ddigartref yn ardal Cwm Taf Morgannwg,¹¹ mae'r Tîm Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol yn darparu gwasanaeth i bobl sy'n cael problemau gyda chamddefnyddio sylweddau yn seiliedig ar ddull lleihau niwed sy'n cynnwys gweithio tuag at ymatal lle y bo'n briodol; a darparu rhaglenni gofal sy'n cael eu datblygu'n unigol gyda phob

⁹ Asesiad cyflym o anghenion iechyd pobl sy'n ddigartref yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Mehefin 2020

¹⁰ Asesiad Poblogaeth Cwm Taf, Mawrth 2017

¹¹ Asesiad cyflym o anghenion iechyd pobl sy'n ddigartref yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Mehefin 2020

cleient. Gall unigolion sy'n camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol yn sylweddol ddefnyddio'r gwasanaeth lle mae risg gysylltiedig iddynt hwy eu hunain neu eraill a lle mae tystiolaeth o ymrwymiad i gymryd rhan weithredol yn rhaglen y driniaeth a chydymffurfio â'r safon ofynnol o ran ymddygiad.

Dyma ddisgrifiad gweithwyr hostel a oedd yn gweithio gyda'r bobl ddigartref a gyfwelwyd yn yr adroddiad o'r heriau o ran cael mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau i'w tenantiaid:

- Nid oes hygyrchedd yn ei le ar gyfer natur anhrefnus y cleientiaid hyn – pan fydd pobl yn cyrraedd y pwynt o 'fyfyrion' (un o gamau cynnar y cylch newid ymddygiad) mae yna restr aros chwe wythnos i gael i mewn i'r gwasanaethau.
- Mae angen cymorth emosiynol i redeg ochr yn ochr â gwasanaethau triniaeth cyffuriau fel rhan o'r model cyffredinol o baratoi pobl i allu rheoli eu tenantiaethau eu hunain.
- Mae angen i apwyntiadau ar gyfer pobl ddigartref fod yn y bore, gan y gall yr hosteli eu rheoli'n haws bryd hynny - os ydynt yn mynd i ffwrdd am y dydd, ac yn dod o hyd i gyffuriau, byddant yn llawer mwy heriol i'w cefnogi i ymgysylltu â gwasanaethau, neu efallai na chânt eu derbyn.
- Gall troseddwr yn y system cyfiawnder troseddol gael mynediad mwy uniongyrchol at driniaeth, am ddeuddeg mis ac yna eu trosglwyddo i wasanaethau camddefnyddio sylweddau cymunedol.
- Ond nid yw mynediad i Fferylliaeth Gymunedol i dderbyn presgripsiynau yn broblem er ei bod yn daith gerdded hir o'r hosteli mewn rhai ardaloedd.
- Mae presgripsiynau wedi'u haddasu ers Covid, gyda mynediad cyflymach i asesiad cychwynnol, er mwyn rhoi mwy o ddyddiau o gyffuriau ar yr un pryd i rai pobl, neu i ddanfoni y presgripsiwn i'r hostel. Yn gyffredinol, teimlwyd bod y newidiadau hyn wedi gwella'r system.

Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn, cadarnhawyd ei bod yn anodd ymgysylltu â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'r GIG, yn enwedig gwasanaethau fel adsefydlu a dadwenwyno. Dywedodd darparwyr Grant Cymorth Tai eu bod yn gorfod ceisio rheoli'r materion hyn drwy eu cefnogaeth hwy.

Achosion pan fo problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn cyd-ddigwydd

Mae'r term 'diagnosis deuol' fel arfer yn cyfeirio at achosion pan fo salwch meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn cyd-ddigwydd. Mae'r berthynas rhwng salwch meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn gymhleth a gall newid dros amser. Gall amrywio rhwng pobl ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ofal sylfaenol sydd â diagnosis deuol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod diffyg data cenedlaethol ar hyn.

O gymharu â phobl sydd â phroblem iechyd meddwl yn unig, mae'r rhai sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl:

- yn debygol o brofi problemau iechyd meddwl mwy difrifol

- mewn mwy o berygl o hunanladdiad
- yn profi sefyllfa ansefydlog o ran tai
- yn wynebu anawsterau ariannol
- yn llai tebygol o ymwneud ag ymyriadau triniaeth
- yn fwy tebygol o ddisgyn drwy'r bwlch rhwng gwasanaethau.¹²

Gwasanaeth Allgymorth Tai Arbenigol mewn perthynas ag Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau

Mewn ymateb rhanbarthol i'r materion hyn, mae'r Gwasanaeth Allgymorth Tai Arbenigol mewn perthynas ag Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau yn wasanaeth allgymorth arbenigol, amlasiantaethol sy'n rhychwantu Awdurdodau Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Ariannwyd y cynnig i ddarparu gwasanaeth allgymorth arbenigol rhanbarthol i unigolion ag anghenion cymhleth sy'n byw mewn hosteli digartrefedd a Phrosiectau Tai yn Gyntaf i ddechrau gan gyllid Cam 2 a chaiff ei ariannu gan y Grant Cymorth Tai yn barhaus.

Roedd 55 o unigolion a gyfeiriwyd at y Tîm ar draws y rhanbarth wedi nodi anawsterau wrth ymgysylltu â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd.

Rheswm dros Atgyfeirio	Nifer yr Atgyfeiriadau (%)
Unigolyn risg uchel sydd ag iechyd meddwl dwys / camddefnyddio sylweddau'n helaeth / risg uchel oherwydd camddefnyddio sylweddau a meddyginiaeth	47.2%
Angen yn ymwneud ag Iechyd Corfforol	27.6%
Wedi gofyn am gymorth iechyd meddwl yn unig	33.1%

Tabl 14: Gwasanaeth Allgymorth Tai Arbenigol mewn perthynas ag Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau – rheswm dros atgyfeirio, Rhagfyr 2021 (data Cwm Taf Morgannwg)

Bydd y prosiect yn cael ei werthuso'n llawn yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, mae anghenion camddefnyddio sylweddau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd a Grant Cymorth Tai yn her sylweddol, yn enwedig ymyrraeth gynnar i atal digartrefedd.

Plant a Phobl Ifanc

Dangosodd yr Asesiad Poblogaeth fod gan Gwm Taf broffil oedran cymharol ifanc gyda'i 62,210 o blant yn cyfrif am 21 y cant o'r boblogaeth (h.y. roedd 1 o bob 5 person a oedd yn byw yng Nghwm Taf o dan 18 oed). Roedd poblogaeth y plant ym Merthyr Tudful wedi cynyddu rhwng 2005 a 2015, gyda chynnydd o 1.4% dros y cyfnod. Rhagwelwyd y byddai Merthyr Tudful yn gweld cynnydd canrannol bach yn nifer y plant 0-17 oed sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Oedolion ifanc (18 i 24 oed) oedd 9 y cant o'r boblogaeth.

Ar draws Cwm Taf roedd y boblogaeth rhwng 0 a 24 oed wedi bod yn gostwng ers 2011, i lawr o 90,442 i 89,772.

Dangosodd amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2014 y bydd poblogaeth gyffredinol y bobl 0-24 oed yn gostwng 1.6 y cant rhwng 2016 a 2025 ar draws Cwm Taf.

Amcangyfrifon o boblogaeth y rhai rhwng 16 a 25 oed ym Merthyr Tudful yn 2020 oedd 6742 o bobl.¹³

Mae pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed yn gyfran sylweddol o'r bobl sy'n cyflwyno'n ddigartref i'r cynghorau, ac maent yn aml yn gadael cartref am fod teuluoedd yn chwalu.

Hwy hefyd yw'r grŵp o bobl sy'n derbyn y pumed nifer uchaf o atgyfeiriadau ar gyfer cymorth wedi ariannu gan y Grant Cymorth Tai.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r dasg i bob cyngor archwilio eu hymateb rhianta corfforaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'u hanghenion llety yn y dyfodol. Yn benodol, mae'n gofyn i'r Cyngor ymateb i'r angen am y canlynol:

- Proses adnabod weithredol i sicrhau y gall pobl ifanc â phrofiad o ofal sy'n cyflwyno'n ddigartref gael yr holl gymorth y mae ganddynt hawl iddo mewn cydweithrediad â'r gwasanaethau plant.
- Cynnal adolygiadau amlasiantaethol i nodi unrhyw fylchau yn y system neu ymyriadau a allai fod wedi digwydd i sicrhau bod achosion tebyg yn y dyfodol yn cael eu hatal ar gyfer pobl ifanc â phrofiad o ofal sy'n cyflwyno'n ddigartref;
- Rhoi statws 'cysylltiad lleol' i bobl ifanc â phrofiad o ofal sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir, wrth symud ymlaen;
- Ymestyn cymorth Cyngorwyr Personol hyd at 25 oed.

Dyma rai meysydd o weithio mewn partneriaeth sydd am gael eu datblygu'n barhaus gyda Thai a

Gwasanaethau Plant:

- Canlyniadau corfforaethol
 - Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol i ddatblygu'r Strategaeth Llwyddiant, Sefydlogrwydd a Phontio ymhellach er mwyn sicrhau ei bod yn amlinellu'n benodol gynlluniau ar gyfer anghenion llety ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal yn y dyfodol.
 - Cynllun dysgu a datblygu wedi'i leoli o dan y Strategaeth Llwyddiant, Sefydlogrwydd a Phontio sy'n ennyn dealltwriaeth ar lefel strategol a gweithredol.
- Comisiynu
 - Fframwaith symud ymlaen cydlynol ar y cyd o dan y strategaeth Llwyddiant, Sefydlogrwydd a Phontio.
 - Sicrhau bod timau troseddau ieuenctid yn ymwneud â chomisiynu a chynllunio opsiynau llety tymor byr ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau.
- Cydweithio
 - Parhau â phanel aml-asiantaeth rhagweithiol yr Awdurdod Lleol, a'i wella; panel sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc â phrofiad o ofal sydd â sefyllfaoedd mwy cymhleth.
- Y profiad i blant ifanc
 - Parhau â threfniadau asesu ar y cyd ar gyfer pobl ifanc sy'n cyflwyno'n ddigartref.
 - Dwyn ynghyd a datblygu ymhellach raglen ragweithiol o atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref

Cyn-droseddwyr

Crynodeb

- Mae cyn droseddwyr yn gyfran sylweddol o gyflwyniadau i'r tîm digartrefedd, sy'n gofyn am lety neu leoliad addas mewn llety dros dro a chymorth sy'n gysylltiedig â thai.
- Mae sawl her o ran diwallu anghenion tai a chymorth cyn droseddwyr. Ar hyn o bryd mae dau brosiect Tai yn Gyntaf sy'n diwallu rhywfaint o'r angen hwn, ond nid yw'r naill na'r llall ar gyfer cyn droseddwyr yn unig.
- Mae sawl cyfle i adolygu'r llwybr ar gyfer troseddwyr o'r carchar i lety yn y gymuned.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu cyn-droseddwyr yn gyson ymhlith y nifer uchaf o gyflwyniadau i dîm digartrefedd y Cyngor, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod o hyd i lety addas i bobl sy'n gadael y carchar. Mae gan Ferthyr Tudful nifer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o bobl sy'n gadael carchar. Oherwydd y pandemig a'r risg uchel y bydd y feirws yn lledaenu mewn llety a rennir (fel yr ystad ddiogeled), dywedodd Llywodraeth Cymru y gallai'r carcharorion hynny a oedd yn agosáu at

ddiwedd eu dedfrydau gael eu rhyddhau'n gynnar i leihau nifer y carcharorion sydd yng ngharchardai'r DU. Oherwydd y cynnydd hwn yn y nifer sy'n gadael carchar, cynyddwyd darpariaeth cymorth fel y bo'r angen sy'n benodol ar gyfer cyn-droseddwy'r. Bu'r cymorth arbenigol hwn yn amhrisiadwy a defnyddiwyd 16 uned gymorth ychwanegol yn llawn ers iddynt gael eu comisiynu ym Medi 2020.

Roedd gan gyn-droseddwy'r hefyd nifer sylweddol o atgyfeiriadau i gael cymorth yn ymwneud â thai. Wrth ymgysylltu ag Arweinydd Gwasanaeth Prawf Cwm Taf Morgannwg a Phennaeth Lleihau Aildroseddu (Cymru), amlygwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o gyn-droseddwy'r yn colli statws blaenoriaeth (mynegwyd pryderon tebyg yn ystod digwyddiadau bord gron gyda darparwy'r gwasanaeth). Codwyd pryderon hefyd am ddiwedd y polisi 'Pawb i Mewn'.

Mae'r daith 'carcharor' (o'r carchar i'r gwasanaeth prawf i'r Awdurdod Lleol) yn aneglur. Mae'r canllawiau presennol yn hen ac yn cyfeirio at strwythur Prawf blaenorol nad yw'n bodoli mwyach. Mae'r Gwasanaeth Prawf yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu'r llwybr ac adlewyrchu symudiad y Gwasanaeth Prawf tuag at 'fodel ailsefydlu'.

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn comisiynu eu gwasanaethau cymorth tai eu hunain:

- Asesiad cychwynnol o bobl yn y ddalfa, yn eu categorïddio yn ôl cymhlethdod (isel/canolig/uchel)
- Y nod yw lleihau nifer yr achosion y mae angen i'r Awdurdod Lleol ymdrin â hwy
- Unwaith y bydd contractau gwasanaethau 'Diwrnod Un' yn gorffen, mae'r gwasanaethau prawf yn comisiynu gwasanaethau sy'n cyd-fynd â gwasanaethau'r Awdurdodau Lleol a pholisi cyfredol Llywodraeth Cymru.

Canmolodd y Gwasanaeth Prawf mor ymatebol oedd tîm digartrefedd CBSMT ond mynegwyd pryder ynghylch y nifer fach o gyn-droseddwy'r sy'n disbyddu'r holl wasanaethau cymorth tai (a mathau o lety):

- Unwaith y bydd yr holl opsiynau wedi'u disbyddu, nid oes neb o reidrwydd yn cymryd cyfrifoldeb.
- Mae angen dod o hyd i atebion tai i bobl sydd yn y sefyllfa hon – er bod yr ateb yn aneglur.
- Mynegodd y Gwasanaeth Prawf fod angen dull cydweithredol rhwng y Gwasanaeth Prawf, tîm llety'r Awdurdod Lleol a thimau perthnasol eraill – yn enwedig ynglŷn â phroses MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) – cyfle i ddysgu'n weithredol eto. Hefyd – mae'n sicr y bydd yno arferion da y gallwn eu rhannu.
- Bydd unrhyw unigolyn sy'n mynegi pryder arbennig yn ei asesiad risg yn cael ei gyfeirio at MAPPA lleol (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd). Mae hwn yn ddull amlasiantaethol o nodi a rheoli troseddwy'r treisgar neu rywiol risg uchel. Bydd opsiynau tai a symud ymlaen yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd hyn er mwyn atal y person rhag cael ei letya mewn ffordd fregus neu rhag cysgu ar y stryd. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys y canlynol:
- Ar ôl gadael y carchar mae gan rai pobl sydd â throseddau difrifol neu dreisgar drefniadau

amlasiantaethol dwys ar waith i alluogi i gamau i'w hailintegreiddio i'r gymuned gael eu rheoli ar y cyd.

- Gelwir y rhain yn Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA), ac maent yn cynnwys yr heddlu lleol, y gwasanaeth prawf ac asiantaethau lleol eraill yn cydweithio i leihau'r risg o aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd.
- Mae asiantaethau cyfiawnder troseddol, fel yr heddlu a'r gwasanaeth prawf, yn asiantaethau sylfaenol, ac maent yn gweithio'n agos gyda chyrff eraill ym maes cyflogaeth, iechyd, tai a gofal cymdeithasol sydd â "dyletswydd i gydweithredu".
- Mae pobl sydd â throseddau treisgar neu rywiol wedi'u rhannu'n categorïau MAPPA, yn dibynnu ar lefel y risg. Gall y categorïddio hwn gael effaith fawr ar allu cleientiaid MAPPA i gael mynediad i dai, gan fod angen safleoedd addas yn yr ardaloedd cywir.
- Mynegwyd pryder hefyd yn ystod yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid ynghylch cyn-droseddwyd benywaidd sy'n aml wedi cael profiadau trawmatig sy'n golygu nad yw llety dros dro gyda dynion yn addas. Mae'r ffaith bod atgyfeiriadau i lochesi Trais Domestig yn cael eu gwrthod oherwydd bod anghenion pobl yn rhy uchel a/neu gymhleth yn adlewyrchu pa mor heriol yw dod o hyd i lety a gwasanaethau addas i fenywod yn y sefyllfa hon ar hyn o bryd.

Er eu bod yn cydweithio'n well, mae'r Gwasanaeth Prawf yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth arnynt yn gynharach (h.y. cyn i'r rhai dan sylw gael eu troi allan) fel y gallant chwarae rôl fwy ataliol. Dyma oedd eu prif flaenoriaethau:

- Angen mwy o lety ar gyfer un person.
- Atal menywod rhag gorfod rhannu gyda dynion sydd â hanes o drais domestig fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- Rhaid i ansawdd ac ystod y llety dros dro fod yn well.
- Gwell ymateb ar y cyd ynghylch MAPPA – adolygu'r gwersi a ddysgwyd ac ymrwymo i ddulliau gweithredu ar y cyd a dysgu gweithredol.
- Sut mae effaith Cyfarfodydd y Tasglu Digartrefedd Rhanbarthol yn cael ei mesur mewn perthynas ag ymatebion amlasiantaethol.

Anabledd Dysgu

Crynodeb

- **Mae angen datblygu sut y caiff data ei gasglu am gymorth a chanlyniadau penodol ynghylch anabledd dysgu**

Nododd yr Asesiad Poblogaeth y credir bod tua 5,500 o bobl yng Nghwm Taf ag anabledd dysgu a bod tua 2,500 o'r rhain yn blant a phobl ifanc, a dim ond nifer fach o'r rhain sy'n defnyddio gwasanaethau ym Merthyr Tudful. Mae gan tua 140 o blant a phobl ifanc Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ym Merthyr Tudful (bydd gan rai ohonynt anabledd dysgu hefyd). Ar hyn o bryd, mae'r

Cyngor yn comisiynu cymorth fel y bo'r angen i 28 o oedolion sydd ag anabledd dysgu yn brif angen drwy'r Grant Cymorth Tai, ac nid oes rhestr aros ar gyfer y ddarpariaeth hon.

Ar hyn o bryd ym Merthyr Tudful, mae 87 o blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi gan y Tîm Plant Anabl. Fodd bynnag, nododd gweithwyr proffesiynol fod yna anghenion uwch na hyn yn y gymuned, gan arwain at ddiffyg posibl mewn gwasanaethau. Mae pobl sydd ag Anabledd Dysgu hefyd eisiau gwasanaethau gwahanol i'r hyn a ddarparwyd yn hanesyddol, gan chwarae rhan weithredol yn eu gymuned, yn hytrach na gwasanaethau dydd.

Dyma heriau eraill a amlygwyd yn yr Asesiad Poblogaeth:

- Anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau ar frys
- Angen i wasanaethau gydweithio'n well
- Mae angen i wasanaethau weld y person, nid yr anghenion

Pobl Hŷn

Crynodeb

- **Bydd cyfran y boblogaeth sydd dros 65 oed yn tyfu'n raddol, a bydd angen mwy o gymorth arnynt i aros yn eu cartrefi eu hunain, a phan fo'n briodol, cymorth i gael gafael ar dai addas i bobl hŷn a symud iddynt, a gofal ychwanegol.**

Mae nifer y bobl hŷn sy'n byw yn y cymunedau yng Nghwm Taf yn tyfu wrth i bobl fyw bywydau hirach iachach. Roedd yr asesiad poblogaeth yn disgwyl i boblogaeth pobl dros 65 oed dyfu 30% a'r rhai dros 80 oed i dyfu 70% yn y 15 mlynedd dilynol.

Dyma rai ystyriaethau allweddol ynglŷn ag anghenion llety a chymorth pobl hyn yn y dyfodol:

- Mae cwmpïadau ymhlith pobl dros 75 oed yn debygol o gynyddu 50% erbyn 2040.
- Erbyn 2040 mae Merthyr yn debygol o fod â 1,308 (61% yn fwy) o bobl 65+ oed sydd â Dementia.
- Erbyn 2040 bydd cynnydd o 34% o bobl 65 oed a throsodd a fydd yn cael trafferth gyda gweithgareddau bywyd bob dydd h.y. tasgau domestig, hunanofal.

Mae'r Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Pobl Hŷn yn ceisio sicrhau bod pobl hŷn yn byw bywydau hirach, iachach, llawnach a hapusach; lle cânt eu hannog a'u cefnogi i gynnal eu hannibyniaeth cyhyd ag y bo modd, tra'n cydnabod y gall rhai fynd yn sâl, yn fregus neu'n agored i niwed, a sicrhau bod y bobl hyn yn cael y parch, y gofal a'r gefnogaeth y mae arnynt eu heisiau a'u hangen ar yr adeg gywir ac yn y lle iawn.

Mae'r Rhwydwaith Gwella a Dysgu Tai wedi darparu dull manwl o fodelu'r angen am gymorth tai ar ffurf Pecyn Cymorth Tai i Bobl Hŷn. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif cyffredinol o'r galw fesul mil o'r boblogaeth 75+ oed, ac o hyn y mae'n bosibl allosod ac amcangyfrif y galw a diffygion tebygol yn y dyfodol. Nid yw'r pecyn cymorth yn cael ei ddiweddarau'n gyhoeddus mwyach; fodd bynnag, lluniodd y Rhwydwaith Gwella a Dysgu Tai adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2020^[1] sy'n darparu data cyflenwi ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r llety ychwanegol sydd ei angen fesul categori o fathau o dai ar gyfer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

	Erbyn 2025	Erbyn 2030	Erbyn 2035
Tai ar gyfer pobl hŷn			
			240
		18	27
Tai Gofal Ychwanegol			
			85
		6	9
Gwelyau cartrefi gofal			
			100
	0	0	0

Tabl 15 Anghenion tai ar gyfer pobl hŷn i'r dyfodol ym Merthyr Tudful.

Mae'n amlwg bod angen mwy o lety tai traws-ddeiliadaeth ar gyfer pobl hŷn a gwelyau nyrsio yn y Fwrdeistref Sirol.

Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrâu

Crynodeb

- Mae angen opsiynau llety addas i bobl anabl aros yn eu cymunedau, gan gynnwys addasiadau ac adeiladu newydd hyblyg

Mae tua 4150 o bobl yng Nghwm Taf wedi'u cofrestru fel rhai sydd â rhyw fath o anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrâu. Mae darparwyr gwasanaethau o'r farn nad yw'r rhif hwn yn adlewyrchiad cywir o'r niferoedd sydd wedi'u heffeithio gan nad yw pobl yn uniaethu â'r iaith, y diffiniadau a'r terminoleg a ddefnyddir. Mae defnyddwyr gwasanaeth byddar a dall, yn enwedig pobl Fyddar a dall yn ddiwylliannol (y rhai a anwyd yn Fyddar neu'n ddall) yn teimlo'n arbennig o ddigyswllt â'r term nam. Nid ydynt yn teimlo bod ganddynt nam neu golled gan nad ydynt erioed wedi bod â'r synnwyr ymdeimlad hwnnw i'w golli neu i fod â nam arno. Mae problemau hefyd o ran tanadrodd gan nad yw pobl am fod ar gofrestrau gan nad ydynt yn siŵr sut y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio, neu eu

bod yn poeni am wahaniaethu.

Dyma rai o'r themâu cyffredin a nodwyd drwy'r asesiad poblogaeth:

- Mae pawb am deimlo'n rhan o'u cymuned a pheidio â theimlo'n ynysig yn gymdeithasol.
- Nid oedd pobl yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael iddynt na sut i gael gafael ar y cymorth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.
- Mae dewis ac annibyniaeth yn bwysig i bobl anabl yn union fel y maent i bawb. Mae pawb eisiau teimlo eu bod yn cymryd rhan, bod ganddynt reolaeth, eu bod yn cael gwrandawriad ac yn cael eu parchu. Efallai y bydd gan bobl anghenion lluosog ond nad ydynt am gael mynediad at nifer o wasanaethau, gan orfod ailadrodd eu stori dro ar ôl tro.

Gofalwyr

Crynodeb

- **Mae angen i wasanaethau'r Grant Cymorth Tai sicrhau eu bod yn integreiddio anghenion gofalwyr wrth gomisiynu a darparu cymorth**

Roedd bron i 13% o'r boblogaeth, tua 7,427 o bobl, yn y Fwrdeistref yn darparu gofal i aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog. Mae hyn ychydig yn uwch na ffigwr Cymru gyfan o 12% ac yn uwch na ffigwr Cymru a Lloegr o 10%.

Mae'r Strategaeth Gofalwyr ar gyfer Cwm Taf yn nodi'r amcanion allweddol y mae angen i'r gwasanaeth Grant Cymorth Tai gyfrannu atynt:

- Nodi gofalwyr
- Rhaid i ofalwyr allu dod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn hawdd ac yn gyflym
- Rhaid gwrandao ar ofalwyr a'u deall
- Cymorth ataliol

Mae angen i gymorth tai gydnabod bod niferoedd cynyddol o bobl yn gweithredu fel gofalwyr wrth i'r boblogaeth heneiddio, a chyfrannu at osgoi rhag i bobl fynd i argyfwng. Mae angen i wasanaethau Grant Cymorth Tai sicrhau eu bod yn integreiddio'r amcanion hyn wrth gomisiynu a darparu cymorth.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Crynodeb

- **Mae gwasanaethau Grant Cymorth Tai ac unedau llety yn cael eu datblygu'n barhaus i ddiwallu anghenion y rhai sy'n cyflwyno o dan gategori Trais yn erbyn Menywod, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol.**

Dyma'r prif heriau a ganfuwyd yn yr asesiad poblogaeth:

- Mae angen grymuso pobl i roi gwybod am achosion o drais a manteisio ar y gwasanaethau sydd ar gael. Nid yw llawer o ddioddefwyr yn rhoi gwybod am y trais neu'r cam-drin y maent yn ei brofi. Nid yw llawer o bobl sy'n rhoi gwybod i'r heddlu neu asiantaethau eraill am ddigwyddiadau yn mynd ymlaen i fanteisio ar y cymorth sy'n cael ei gynnig. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn aml ac yn helpu'r rhai sydd yn y perygl mwyaf yn bennaf ac mae llai o gymorth ar gael i eraill.
- Mae angen i wasanaethau ddiwallu anghenion pob grŵp yn ein cymunedau. Mae'r wybodaeth sydd gennym am bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn awgrymu nad ydym yn diwallu anghenion rhai grwpiau yn ein cymunedau. Er enghraifft, nid oes unrhyw wasanaethau wedi'u darparu'n benodol ar gyfer dynion. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn comisiynu dwy uned o lety gwasgaredig i'r rhai na allant gael mynediad i ddarpariaeth lloches i fenywod ac yn chwilio am gyllid pellach i gynyddu hyn dros y blynyddoedd nesaf.
- Mae angen i wasanaethau gydweithio i fynd i'r afael â'r problemau sylfaenol sy'n arwain at drais. Mae llawer o bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn profi amrywiaeth o broblemau fel camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl gwael ac efallai y byddant yn hysbys i wasanaethau eraill. Gall y rhain fod yn achosi neu'n cyfrannu at y trais neu'r cam-drin y maent yn ei brofi ac ni ddylid mynd i'r afael ag ef ar eu pennau eu hunain.
- Mae angen i wasanaethau amddiffyn a chefnogi plant mewn teuluoedd lle mae trais a cham-driniaeth yn digwydd. Mae'r wybodaeth sydd gennym o'n gwasanaethau yn dweud wrthym fod plant yn bresennol yn y rhan fwyaf o gartrefi lle rydym yn cefnogi dioddefwr trais neu gamdriniaeth. Mae plant sy'n gweld neu sydd â phrofiad o gam-drin domestig yn fwy tebygol o gael problemau yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae angen inni ddarparu mwy o wasanaethau i gefnogi plant yn uniongyrchol lle mae trais neu gamdriniaeth domestig yn digwydd yn eu teulu neu iddynt hwy'n uniongyrchol
- Dylai pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ddweud wrthym beth sydd ei angen arnynt a sut y gallwn wneud yn well. Nid yw'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn mynd ati fel mater o drefn i ddweud wrthym beth y maent am ei gael na sut y dylem ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau'n cael eu dylunio gan weithwyr proffesiynol sy'n credu eu bod yn gwybod beth sydd ei angen ar bobl heb iddynt gael eu llywio gan y bobl a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth yn y pen draw. Mae angen inni ddod o hyd i ffordd o gael sgwrs gyda phobl sy'n caniatáu iddynt lywio'r ffordd rydym yn dylunio ac yn darparu ein gwasanaethau

Mae gan Strategaeth a Chynllun Cyflawni Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf Morgannwg bum nod allweddol:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cwm Taf Morgannwg
- Torri cylch cenedlaethau o ymddygiad ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn teuluoedd drwy hyrwyddo perthnasoedd iach ymhlith plant a phobl ifanc.
- Dwyn cyflawnwyr i gyfrif am eu gweithredoedd a'u cefnogi i newid eu hymddygiad.
- Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u comisiynu i ddiwallu anghenion poblogaeth Cwm Taf.
- Sicrhau bod gwasanaethau'n addas i'r diben a sicrhau ansawdd.

Gellir gweld y cynnydd yn erbyn y cynllun fan yma:

<http://www.ourcwmtaf.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=286&mid=613&fileid=1120>

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Crynodeb

Cyfeiriodd rhanddeiliaid at amrywiaeth o faterion:

- Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg parhad yn y cytundebau ariannu o flwyddyn i flwyddyn yn hytrach na chontractau tymor hwy. Roeddent hefyd yn mynegi pryderon ynghylch lefel y weinyddiaeth sydd ei hangen wrth fonitro gweithgarwch sy'n cymryd llawer o amser ac sy'n lleihau hyblygrwydd a chyfleoedd i arloesi.
- Roedd rhanddeiliaid eisiau gwneud mwy o waith atal ond ar hyn o bryd maent yn teimlo mai rheoli argyfwng y maent yn ei wneud. Byddai datblygu siop un stop i ddarparu cyngor a chymorth cynnar yn helpu gyda hyn. Mae darparwyr yn gweld mwy o bobl sydd wedi colli eu swyddi a'u cartrefi yn ddiweddar.
- Canmolwyd tîm digartrefedd y Cyngor am y cymorth a roddant i drigolion.
- Dywedodd rhai eu bod wedi gweld newidiadau yn ymddygiad tenantiaid oherwydd eu bod yn ymwybodol bod gan y Cyngor ddyletswydd i ddod o hyd i lety iddynt. Mae tenantiaethau'n methu'n amlach oherwydd y canfyddiad bod yno rwyd ddiogelwch o lety dros dro.
- Mae gan lawer o bobl sy'n cael eu cyfeirio at lety â chymorth a chymorth fel y bo'r angen anghenion uwch a materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd ddigwydd. Yn aml nid ydynt yn bodloni cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau'r GIG neu Ofal Cymdeithasol i Oedolion ac felly mae gwasanaethau Grant Cymorth Tai yn gorfod addasu i ddiwallu eu hanghenion.
- Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio egwyddorion yr Amgylchedd sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag anghenion sy'n deillio o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae angen parhau i ddatblygu hyn.
- Roedd nifer o enghreifftiau o heriau o ran cael mynediad at Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau dwys fel dadwenwyno ac adsefydlu.
- Mae dod o hyd i lety i bobl sy'n gadael y carchar yn her wirioneddol; nid yw llety dros dro yn rhoi'r cymorth cywir i atal aildroseddu, hyd yn oed gyda chymorth fel y bo'r angen drwy'r Grant Cymorth Tai.
- Mae anawsterau sylweddol o ran dod o hyd i lety priodol ym Merthyr Tudful i symud ymlaen o lety dros dro a llety â chymorth.
- Mae angen mawr am lety un person ond mae topograffeg a natur cymunedau yn golygu bod nifer o rwystrau i ddatblygu'r llety hwn mewn sawl ardal. Mae'r pandemig wedi amharu'n sylweddol ar ddatblygiadau arfaethedig a chwmnïau adeiladu.
- Mae angen i ddata a gwybodaeth gael eu rhannu'n well rhwng pob rhan o'r system

Roedd amrywiaeth o rhanddeiliaid lleol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r asesiad hwn o anghenion. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys adrannau'r cyngor, partneriaid statudol fel iechyd a'r gwasanaeth prawf, ynghyd â chynrychiolwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr Grant Cymorth

Tai. Roedd y rhanddeiliaid yn cymryd rhan drwy weithdai ar-lein, cyfweiliadau unigol a holiadur. Mae'r rhanddeiliaid a gymerodd ran wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

- | | |
|---------------------------------|--|
| • Ystad CBSMT | • Gwasanaethau Menywod |
| • Cynllunio CBSMT | • Cyngor ar Bopeth |
| • Tîm Digartrefedd CBSMT | • Hafod |
| • Tîm Tai Strategol CBSMT | • Cornerstone |
| • Tîm Grant Cymorth Tai CBSMT | • Canolfa Ddysgu Cymdogaeth Gurnos |
| • Iechyd yr Amgylchedd CBSMT | • Pobl |
| • Gofal a Thrwsio | • Cartrefi Cymoedd Merthyr |
| • Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | • Aelodau'r Bartneriaeth Tai Strategol |
| • Platform | • Adfywio, Cynllunio, Rheoli Asedau, Iechyd yr Amgylchedd CBS Merthyr Tudful |
| • Tai Wales & West | • Y Gwasanaeth Prawf |
| • Mind Cwm Taf | |

Mae canlyniad y gwaith ymgysylltu hwn wedi'i ddadansoddi a'i grynhoi o dan y themâu allweddol isod.

Trefniadau Ariannu'r Grant Cymorth Tai

- Mae cytundebau ariannu blynyddol yn golygu diffyg sicrwydd i wasanaethau, staff a defnyddwyr gwasanaethau. Mae staff yn llai tebygol o aros mewn rolau neu wneud cais amdanynt.
- Mae'r aflonyddu a'r newidiadau staff yn effeithio ar y defnyddwyr gwasanaeth.
- Teimlai'r rhanddeiliaid y byddai unrhyw beth yn welliant, hyd yn oed cytundeb dwy flynedd.
- Byddai'n dda gweld nod strategol o gytundeb 2-3 blynedd.

Monitro Gweithgarwch

- Gall cyfrif am bob awr ac a nodi a yw'n amser uniongyrchol neu anuniongyrchol fod yn heriol i'w reoli a gall gymryd llawer o amser i'w gofnodi.
- Gall eithrio gweithgareddau fel hyrwyddo'r gwasanaeth ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Gall olygu nad yw arweinyddiaeth, amser strategol ac adnoddau yn cael eu hystyried o ran cyllido, dim ond amser rheng flaen.
- Mae gan Awdurdodau Lleol eraill ddulliau mwy hyblyg o fonitro gweithgarwch.
- Yr oedd cwestiynau hefyd ynghylch y fframwaith canlyniadau ac a oedd ffyrdd gwell o gofnodi tystiolaeth o gynnydd pobl mewn llety â chymorth.

Hyblygrwydd ac Arloesedd

- Darparodd cyllid Covid arian ychwanegol ac roedd gofyn i'r rhanddeiliaid fod yn fwy hyblyg ac arloesol yn y ffordd yr oeddent yn gweithio gyda chleientiaid.
- Cyn hyn roedd gofynion y Grant Cymorth Tai yn eithaf anhyblyg o ran y gweithgareddau a ganiateir.
- Mynegwyd pryderon ynghylch peidio â manteisio ar y cyfle i ddysgu'n fyfyrion o drefniadau Covid a diweddarau'r model i roi hyblygrwydd i ddarparwyr.

Atal

- Teimlwyd bod gwasanaethau Grant Cymorth Tai yn gweithredu mewn dull ymladd tanau o hyd, gan ganolbwyntio ar ymyrryd mewn argyfwng heb fawr o fewnbwn ar atal.
- Cytunwyd bod mynediad cynnar i gymorth iechyd meddwl yn angen ataliol sylweddol.
- Dywedodd rhai eu bod yn gweld pobl yn 'troi mewn cylchoedd' o lety dros dro, llety â chymorth a charchar.
- Roedd y rhanddeiliaid yn ymwybodol o wasanaethau ataliol fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth i ofalwyr ond nid oes digon, gyda phobl yn dal i adael yr ysgol, y carchar neu'r ysbyty heb gyngor ar gyllidebu a budd-daliadau.
- Mae yna newidiadau allweddol mewn amgylchiadau lle gellid sbarduno asesiad ac ymyriad. Nodwyd y gallai rhanddeiliaid, gyda mwy o hyblygrwydd, gynnig rhywfaint o hyn drwy hyrwyddo gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn fwy ac ymgysylltu â'r gymuned i ganfod pobl sydd mewn angen.
- Mae ardaloedd eraill wedi datblygu canolfannau, fel siopau un stop, lle mae hyn yn rheolaidd, yn cael ei hyrwyddo'n lleol, a lle gall pobl gael cefnogaeth, cymorth i lenwi ffurflenni neu'u cyfeirio/atgyfeirio at y gwasanaeth cywir.
- Credai'r rhanddeiliaid y gallai fod mannau mewn eglwysi yn yr ardal a allai gynnal rhywbeth felly ym Merthyr.

Mynediad

- Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth ar-lein wedi bod yn ddefnyddiol, yn enwedig pobl sy'n defnyddio grwpiau a chymorth cam-drin domestig tra'n aros yn anhysbys.
- Fodd bynnag, mewn meysydd eraill, fel iechyd meddwl, ni lwyddodd y gwasanaethau i ddilyn trywydd pobl nad oeddent yn ymgysylltu, ac er bod y cyfnod clo wedi rhyddhau pryder ynghylch mynd allan a rhyngweithio yn y tymor byr, mae wedi achosi i gamau i fynd i'r afael â'r materion a magu hyder gael eu gohirio.

Symud ymlaen o lety â chymorth

- Roedd hyn yn fater o bwys gyda phawb yn cytuno nad oedd digon o lety i symud ymlaen iddo, gan olygu bod pobl yn aros mewn cynlluniau â chymorth ac yn cael eu sefydliadu.
- Mae pobl yn aros misoedd i gael symud ymlaen o lety gwely a brecwast.
- Disgrifiwyd Merthyr fel cymuned lled-wledig glos lle y mae'n debygol iawn y bydd pobl yn adnabod pobl sy'n cael eu symud i'r gymuned a'r heriau y maent yn eu hwynebu.
- Roedd y rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r heriau o ran prynu ac adeiladu tai newydd yn yr ardal a'r heriau gan y gymuned.

Cynllunio a datblygu cartrefi newydd

- Mae cymunedau ym Merthyr Tudful yn unigryw iawn ac mae angen eu cynnal, gan ddilyn esiampl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd â siarter gwneud lleoedd. Mae hyn yn galw am bartneriaethau cryf rhwng y gymuned a sefydliadau sy'n rhannu ymdeimlad o berthyn, wedi'i ddangos gan arferion ymgynghori da a pharch at dreftadaeth yr ardal.
- Mae angen i'r Adran Gynllunio weithio'n agosach gydag aelodau etholedig i sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng yr argyfwng tai brys ers COVID-19 a deisebau eu hetholwyr ynghylch cynigion adeiladu tai newydd.
- Awgrymodd un rhanddeiliad y dylid datgysylltu aelodau etholedig o'r broses gynllunio yn ystod yr argyfwng tai fel y gallai datblygiadau sydd â chaniatâd cynllunio yn ei le fynd rhagddynt gyda llai o fewnbwn gan bwyllgorau.
- Mae angen i'r Cyngor gyfathrebu'r argyfwng tai yn gliriach – nid yw'r cyhoedd yn ymwybodol o'r angen hanfodol am gymorth ychwanegol.
- Mae angen dwys am lety un person.
- Mae lefelau o ganiatâd cynllunio eisoes yn eu lle felly'n barod i gael eu gweithredu pan fydd cyfleoedd yn codi.
- Mae angen edrych yn y tymor hir ar safleoedd a chael caniatâd cynllunio am 5 mlynedd cyn i gyllid ddod ar gael.
- Gallai fod yno rai safleoedd o lwyddiant hawdd y gellid eu paratoi'n gyflym.
- Mae'r pandemig wedi llesteirio archwiliadau eiddo gwag ond mae perchnogion yn amharod i drosglwyddo eiddo i'w defnyddio.
- Mae heriau o ran daearyddiaeth y Fwrdeistref a phrinder llafur, problemau capasiti a chostau cynyddol yn golygu storm berffaith o fethu â fforddio cartrefi addas neu nad oes digon ohonynt. Mae angen gweithio mewn partneriaeth er mwyn adeiladu tai, gyda gwahanol opsiynau a dulliau modern, mwy effeithlon ac ecogyfeillgar.
- Mae'r gofyniad i ôl-osod tai i'w gwneud yn fwy ecogyfeillgar yn her fwy byth.

Diffyg llety brys

- Lle mae pobl wedi disbyddu opsiynau eraill fel gwely a brecwast, dywedwyd nad oes canolfannau dydd na llochesi nos sy'n cynnig llety brys.
- Roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r heriau o ddod o hyd i lety ar gyfer Tai yn Gyntaf.
- Fodd bynnag, soniodd pobl hefyd am newid agwedd gan fod yn rhaid i'r Cyngor ddod o hyd i lety iddynt bellach. Nid yw rhai pobl yn ymwneud â chymorth neu amodau tenantiaeth ac yna cânt eu rhoi mewn llety dros dro sydd â llai o amodau.
- Mae angen defnyddio'r gyllideb ar gyfer llety dros dro yn fwy effeithiol gan edrych ar atebion arloesol gyda phartneriaid.

Newidiadau i amgylchiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau

- Mae gwasanaethau'n gweld mwy o bobl sydd wedi colli swyddi a chartrefi yn ddiweddar ac nad ydynt wedi cael mynediad at wasanaethau o'r blaen. Yn gyffredinol, mae ganddynt ddyledion mawr a/neu maent yn ei chael yn anodd talu am danwydd a bwyd.
- Byddai mwy o hyblygrwydd yn y Grant Cymorth Tai, gan ganiatáu iddo gymryd rhan yn gynt a bod yn fwy ataliol, yn ddefnyddiol i ddiwallu eu hanghenion.

Atal digartrefedd

- Canmolwyd y cymorth digartrefedd gan dîm y Cyngor. Tra bo pobl ar y rhestr aros caiff cymorth ei roi ynglŷn â chyllidebu a rheoli tenantiaeth. Mae pobl mewn Llety Dros Dro yn cael cymorth da gan CBSMT. Teimlai rhanddeiliaid a oedd yn gweithio ar draws ardaloedd fod Merthyr yn well na llawer o Fwrdeistrefi cyfagos.
- Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gwneud llawer i gefnogi tenantiaid i gynnal eu tenantiaeth a gwaith i atal rhag i bobl gael eu troi allan.

Polisi 'pawb i mewn' yn ystod y pandemig

- Nododd rhai eu bod wedi gweld newidiadau yn ymddygiad tenantiaid oherwydd eu bod yn ymwybodol bod gan y Cyngor ddyletswydd i ddod o hyd i lety iddynt. Mae tenantiaeth yn methu'n amlach oherwydd y canfyddiad bod yna rwyd ddiogelwch o lety dros dro.
- Teimlwyd bod Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol yn hanfodol i sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei roi ac y gwneir yr ymateb cywir i'r hyn a allai fod yn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Anghenion uchel

- Mae rhai pobl mewn llety hostel sydd ag anghenion iechyd meddwl yn uwch na lefel y cymorth y gellir ei gynnig. Mae Timau Iechyd Meddwl Cymunedol yn chwarae eu rhan pan fo'r

risg asesedig yn uwch nag y mae'r gwasanaeth i fod i ymdrin â hi.

- Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio egwyddorion yr Amgylchedd sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag anghenion sy'n deillio o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae angen parhau i ddatblygu hyn.
- Mae llochesau'n parhau i gael llawer o achosion o gamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl risg uchel.
- Un enghraifft oedd un person a oedd yn barod i ddadwenwyno ond roedd y GIG yn cymryd amser hir i gael darpariaeth adsefydlu.
- Mae mwy o bobl yn derbyn cymorth ac felly ceir niferoedd cynyddol sydd â chymhlethdod uchel. Efallai fod Covid wedi atal rhai pobl rhag chwilio am gymorth yn ymwneud â thrais domestig ac felly rhagwelir mwy o alw.
- Mae her o ran diwallu anghenion pobl nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, ond y mae eu hanghenion yn uwch na'r hyn y mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai wedi'u dylunio i'w diwallu.
- Teimlwyd bod Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol yn hanfodol mewn llety â chymorth.

Tai yn Gyntaf

- Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod Tai yn Gyntaf yn gweithio'n dda a bod angen eu hyrwyddo'n fwy.
- Fodd bynnag, teimlai eraill nad oedd digon o eiddo addas ac nad oedd gan bawb a oedd gan bawb a gaiff eu lleoli anghenion cymorth uchel.

Cyn-droseddwy

- Mae dod o hyd i lety i bobl sy'n gadael y carchar yn her wirioneddol; nid yw llety dros dro yn rhoi'r cymorth cywir i atal aildroseddu, hyd yn oed gyda chymorth fel y bo'r angen Grant Cymorth Tai.
- Roedd gan rai darparwyr berthynas dda â'r gwasanaeth prawf a charchardai ond roedd yn amrywio ymysg eraill.

Mewnbwn Iechyd

- Mae heriau o ran cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i'r rhai ag anghenion uchel a'r rhai nad yw eu hanghenion yn bodloni meini prawf cymhwysedd.
- Roedd nifer o enghreifftiau o heriau o ran cael gafael ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau dwys fel dadwenwyno ac adsefydlu. Mae gwasanaethau cyngor a chymorth unigol yn dda ond unwaith y byddant wedi disbyddu'r hyn y gallant ei wneud, anodd yw dod o hyd i gymorth arall.

- Ceir fwy o adrodd am faterion yn ymwneud â chymdogion gan fod pawb gartref yn fwy ac mae rhwystredigaethau'n cynyddu a gallant arwain at sefyllfaoedd cymhleth sy'n galw am ddull partneriaeth gyda phartneriaid ieched a phartneriaid eraill yn y system.

Rhannu data

- Cyfeiriodd rhanddeiliaid strategol at bwysigrwydd rhannu data a gwybodaeth yn well.
- Mae angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fod yn well am rannu gwybodaeth a chael llwybrau cliriach i rhanddeiliaid gyfrannu at weithio rhanbarthol.
- Teimlai rhanddeiliaid y byddai'n dda cael fforwm strategol gyda phartneriaid a dechrau archwilio data. Gallai hyn edrych i ddechrau ar y rhai sydd mewn llety anaddas, gan rannu data rhwng y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i lunio rhestr o bobl y mae angen iddynt symud a sut y gellid defnyddio'r stoc dai yn fwy effeithiol i ddiwallu anghenion y bobl hynny sydd eisoes yn y system.

Sylwadau o Arolwg Rhanddeiliaid Rhanbarthol 2020:

Yn 2020, cynhaliodd y Grŵp Strategaeth Tai Rhanbarthol arolwg o rhanddeiliaid. Dyma rai o'r canfyddiadau:

Teimlai Cymorth Tenantiaeth Llamau Merthyr fod bwlch mewn gwasanaethau ym Merthyr Tudful ar gyfer Tai â Chymorth Addas i bobl â lefel uchel o Anghenion Cymorth Iechyd Meddwl ac awgrymodd gyfarfodydd bob 3 mis gyda gweithwyr rheng flaen y gwasanaeth a rhanddeiliaid i drafod materion a rhannu gwybodaeth.

Awgrymwyd y byddai rhyw fath o lety a chymorth "seibiant" yn ddefnyddiol i'r rhai mewn llety dros dro er mwyn caniatáu i gyfyngu ac ymyriadau eraill gael eu rhoi ar waith pan fo angen (fel sy'n cael eu defnyddio mewn awdurdodau lleol eraill). Gall y newid hwn fod o gymorth i ganiatáu rhywfaint o le i anadlu i'r unigolyn dan sylw a naill ai'r teulu neu'r darparwyr cymorth.

Roedd Mind Cwm Taf Morgannwg yn teimlo bod angen:

- gwell mynediad at lwybrau ieched, camddefnyddio sylweddau a chymorth ariannol cydgysylltiedig (cymorth cofleidiol).
- Mynediad at gymorth seicolegol - i drin ac ymateb i drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod.
- Gwneud yr arfer o weithio mewn partneriaeth yn amod contract.
- Defnyddio fforymau Grant Cymorth Tai i annog yr arfer o weithio mewn partneriaeth ar draws darparwyr.
- Un pwynt mynediad i bob buddiolwyr er mwyn derbyn ymatebion cydgysylltiedig mewn

perthynas ag iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth ariannol.

Nododd Pobl fod pobl wedi cael eu hamlygu i drawma / Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a bod angen therapïau seicolegol. Roeddent hefyd yn dweud nad oes digon o ddarpariaeth ar gyfer unigolion Digartref, llety a chymorth ynghyd â chysylltiadau â gwasanaethau arbenigol eraill. (Canolfan asesu a darpariaeth frys).

Rhanddeiliaid Iechyd

Cynhaliwyd cyfweiliad gyda Chyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd o'r un sefydliad. Roedd y cyfweiliad yn ymdrin yn fras â sut roedd y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wella ei hygyrchedd i bobl ddigartref. Yn benodol, amlygodd y cyfweiliad dri maes cyffredinol ar gyfer gwella mynediad.

Yr angen i adolygu cylch gwaith ac allbynnau'r swyddi cymunedol presennol ar draws y bartneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

Cydnabuwyd ei bod yn hanfodol bod yna ymarferwyr yn y gymuned a oedd yn deall pwysigrwydd darparu gwasanaethau ar sail perthynas. Mae yna gynllun clir i symud tuag at ddarparu gwasanaethau iechyd drwy fodel ardal. Mynegwyd barn bod nifer o swyddi a allai fod yn gorgyffwrdd o ran eu cyrhaeddiad a'u cylch gwaith, e.e. Llyw-wyr Cymunedol a swyddi'r Tîm Gofal Gwrthgyfartal. Argymhellwyd bod angen archwilio'r ffordd y mae'r swyddi/gwasanaethau hyn yn ategu ei gilydd ar draws y bartneriaeth er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Yr angen i sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng datblygu gwasanaethau arbenigol a gwella mynediad i wasanaethau prif ffrwd i bawb.

Cydnabuwyd hefyd y byddai angen i ddull priodol sy'n seiliedig ar ardal fod yn gynhwysol yn ei gyfanrwydd a bod angen rhai gweithgareddau dysgu a datblygu i sicrhau bod yr holl wasanaethau prif ffrwd mor gynhwysol â phosibl – gan ystyried anghenion mynediad penodol e.e. pobl ag anabledd dysgu, iechyd meddwl, pobl ddigartref. Yr oedd barn bod angen sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng datblygu gwasanaethau arbenigol a gwella mynediad i wasanaethau prif ffrwd i bawb.

Yr angen i sicrhau bod argymhellion yr Asesiad Anghenion Iechyd diweddar yn cael eu hystyried a'u gweithredu gan fforymau cynllunio perthnasol.

Mewn asesiad anghenion iechyd diweddar (2020) a gynhaliwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mewn perthynas â phobl ddigartref, amlygwyd diddordeb amlwg yn anghenion iechyd pobl ddigartref yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth yn y Bwrdd Iechyd, ac roedd yr ymdrechion y mae rhai gwasanaethau wedi'u gwneud i ddeall a diwallu anghenion iechyd pobl ddigartref yn

galonogol. Mae angen sicrhau bod argymhellion yr Asesiad o Anghenion Iechyd yn cael eu hadolygu a'u gweithredu'n briodol yn y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â phobl ddigartref gan fforymau partneriaeth presennol (e.e., byrddau cynllunio ardal) sy'n cwmpasu:

- Iechyd meddwl
- Camddefnyddio Sylweddau
- Tai a digartrefedd

Mae'r berthynas ar lefel leol rhwng rhai o wasanaethau'r GIG a darparwyr hosteli hefyd i'w chroesawu ac yn rhywbeth i adeiladu arno. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod dull amlddisgyblaethol strategol a chydgyssylltiedig o ddiwallu anghenion iechyd pobl ddigartref yn llawn, a fyddai'n bodloni'r arfer gorau o ran safonau, yn absennol i raddau helaeth ar adeg yr asesiad.

Mae'r ffocws presennol yn y Bwrdd Iechyd ar fodel rheoli ardal yn rhoi cyfle i bob ardal brofi ei chynllun model gwasanaeth er mwyn sicrhau bod anghenion y rhai mwyaf agored i niwed ym mhob cymuned, gan gynnwys pobl ddigartref, wedi cael sylw.

Yn yr asesiad o anghenion iechyd, amlygwyd yr argymhellion canlynol i'r awdurdodau a'r partneriaid priodol yn yr ardal eu hystyried fel blaenoriaethau mewn perthynas ag anghenion iechyd pobl ddigartref.

1. Dylid adolygu gweithdrefnau diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i sicrhau bod unigolion a sefydliadau'n gallu mynegi pryderon am bobl ddigartref, a theimlo bod eu pryderon yn cael eu clywed ac y gweithredir ar eu pryderon.
2. Dylid cynnull fforwm presennol, neu grŵp newydd, i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r camau strategol sy'n deillio o'r asesiad o anghenion iechyd. Dylai'r grŵp hwn gynnwys rhanddeiliaid allweddol; gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, tai, cyfiawnder troseddol a lles, a dylai fod linell atebolrwydd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Un o nodau cyntaf y grŵp hwn ddylai fod nodi ei weledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd i bobl ddigartref, gan ddefnyddio'r gwaith sylfaenol sydd wedi'i wneud mewn gwasanaethau unigol. Dylid datblygu model integredig o ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ddigartref i'w ddarparu ym mhob ardal awdurdod lleol, sy'n ystyried y safonau a nodir gan y Gyfadran Iechyd Digartrefedd a Chynhwysiant ac sy'n mabwysiadu dull dysgu gweithredol o ddatblygu gwasanaethau.
3. Dylid sefydlu fforwm gweithredol ym mhob un o ardaloedd yr awdurdodau lleol i ddarparu ffocws ar gyfer meithrin perthynas rhwng yr amryw ddarparwyr gwasanaethau iechyd a darparwyr hosteli, gyda phwyslais penodol ar Ofal Sylfaenol i wella'r ffordd y caiff gofal iechyd i bobl ddigartref ei reoli o ddydd i ddydd.
4. Dylid sefydlu rhwydwaith o weithwyr iechyd proffesiynol sydd â diddordeb mewn iechyd a digartrefedd ar draws y Bwrdd Iechyd (gan gynnwys gofal sylfaenol) i feithrin gallu a

dealltwriaeth broffesiynol o anghenion a gwasanaethau i Bobl Ddigartref.

5. Dylid dod â data sy'n ymwneud â defnydd pobl ddigartref o wasanaethau ar draws y Bwrdd Iechyd at ei gilydd mewn un dangosfwrdd i helpu i ddeall sut mae pobl ddigartref yn defnyddio gwasanaethau iechyd. A dylai'r data yma fwydo i mewn i gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac i lywio'r Cynllun Gweithredu ar Iechyd Grwpiau Digartref ac Agored i Niwed. Gellir cyflawni hyn drwy archwilio data gwasanaethau presennol, yn hytrach na bod angen systemau newydd, a bydd hyn yn rhoi amlygrwydd i anghenion pobl ddigartref yn barhaus.
6. Dylai staff mewn rolau arwain a chlinigol allweddol godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n codi yn yr adroddiad hwn ar sail amlddisgyblaethol. Dylai hyn gynnwys pobl sy'n ymweld â hosteli a chwrdd â phobl ddigartref er mwyn datblygu empathi a herio eu rhagfarn anymwybodol. Dylai hyfforddiant ymdrin â'r pynciau hyn:
 - Achosion a mathau o ddigartrefedd
 - Anghenion
 - Meini prawf a threfniadau mynediad
 - Dwysáu
 - Rhannu risg
 - Rhannu gwybodaeth
7. Mae gwaith clwstwr Taf Elái ar bobl digartref yn ddatblygiad sylweddol a chadarnhaol iawn a dylid ei ddefnyddio fel cynllun peilot i brofi dull o weithio y gellir ei gyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd fel y bo'n briodol.
8. Mae angen darn penodol o waith i ymchwilio ymhellach i rôl gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau wrth gefnogi pobl ddigartref.
9. Mae gwasanaethau meddwl sylfaenol ar gael mewn rhai hosteli ond nid pob hostel, wedi'u hariannu o amrywiaeth o ffynonellau y tu allan i'r GIG. Darperir gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol hefyd gan y GIG, a cheir mynediad i hyn drwy Weithwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol mewn Gofal Sylfaenol. Mae pobl ddigartref yn fwyaf tebygol o gael mynediad at wasanaethau sy'n cael eu darparu mewn hosteli neu'n agos atynt. Dylai cynnig cyson fod ar gael ar draws pob lleoliad sy'n hawdd ei gyrraedd gan fod sefydlogi iechyd meddwl yn sail i bob ymyriad arall gyda phobl ddigartref.
10. Mae angen cyswllt uniongyrchol a rheolaidd rhwng Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, Timau Iechyd Meddwl Argyfwng, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a gwasanaethau hosteli i sefydlu cyd-ddealltwriaeth a dull o gefnogi pobl ddigartref mewn argyfwng, gan gynnwys archwilio'r arfer o rannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a darparwyr tai.
11. Dylid ystyried dull iechyd cyhoeddus o atal digartrefedd yn sylfaenol, gan gynnwys adolygiad o'r dull lleol o nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref drwy ysgolion a gwasanaethau addysg, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl oherwydd teuluoedd yn chwalu a

theuluoedd mewn argyfwng, ac asesu a yw'r trefniadau presennol wedi'u targedu'n ddigonol. Dylid rhoi sylw arbennig i'r modd y caiff pobl ifanc LHDTC eu cefnogi drwy achosion o deuluoedd yn chwalu.

12. Dylai partneriaid adolygu eu trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty er mwyn sicrhau nad ydynt yn cyfrannu at ddigartrefedd yn ddjarwybod.
13. Mae ymatebion rhai gwasanaethau i Covid-19 wedi cyflymu mynediad at wasanaethau i bobl mewn angen – er enghraifft mynediad cyflymach at bresgripsiynu amgen i bobl sy'n defnyddio sylweddau. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu gyda gwasanaethau digartrefedd sut y gellir cynnal y mynediad hwn.
14. Dylai'r Gwasanaethau Iechyd ddarparu gwybodaeth yn rheolaidd i'r gwasanaethau hostel digartrefedd, fel rhan o'u diweddariadau rheolaidd am wasanaethau, am sut i dderbyn gwasanaethau e.e., newidiadau o ran mynediad i wasanaethau deintyddol, derbyn gwasanaeth podiatreg ac ati.
15. Dylid datblygu a gweithredu model i gysoni ymyriadau therapiwtig ar gyfer pobl ddigartref sydd â chydafiachedd iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.
16. Dylid ymchwilio ymhellach i'r broses o drosglwyddo gofal pan gaiff rhywrai eu rhyddhau o Garchar y Parc yng nghyd-destun ail-gomisiynu gwasanaethau iechyd carchardai.
17. Dylai pob sefydliad ystyried sut y gallant gynnig cyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd eraill sy'n hygyrch i bobl ddigartref.
18. Dylid cyflwyno gwasanaeth brechu oportiwnistaidd i ddiwallu anghenion y boblogaeth ddigartref ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Dylai hyn fod yn rhan o gylch gwaith y tîm imiwneiddio, pan fydd adnoddau dynol yn caniatáu.
19. Dylid menywod yn y grwpiau oedran cymwys ar gyfer sgrinio'r fron a sgrinio serfigol gael eu hannog a'u cynorthwyo i fynychu i gael eu sgrinio.

Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth

Crynodeb

- Mae'n anodd cael gafael ar wasanaethau ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd ddigwydd heb yr eiriolaeth a'r cymorth cywir.
- Bod yn agos a chael mynediad i berthnasoddd arferol hirdymor iach fel teulu a ffrindiau.
- Cael mynediad at gymorth a fydd yn helpu pobl i leihau neu ddileu dibyniaeth ar gamddefnyddio sylweddau.
- Cael mynediad i'r wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth gywir fel y gall pobl osgoi.
- Bod gan bobl fynediad i lety addas a mwy parhaol pan fydd ei angen arnynt.
- Mae pobl yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau sefydlogrwydd o ran llety a magu hyder tra'n derbyn cymorth i'w galluogi i ddod yn fwy annibynnol.
- Mae pobl yn gwerthfawrogi'r ystod o gymorth sydd ar gael i fynd i'r afael â materion fel budd daliadau, llety, dyled, trais yn y cartref, cymorth iechyd meddwl, cymorth o ran camddefnyddio sylweddau ac offer i aros gartref.
- Mae pobl yn gwerthfawrogi cysondeb a dibynadwyedd, cymorth emosiynol yn ogystal â gwybodaeth am hawliau.
- Mae angen cymorth ar bobl i eiriol drostynt eu hunain a magu eu hyder.
- Caiff staff cymorth eu canmol am ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth lle nad oedd gwasanaethau eraill yn seiliedig ar berthynas nac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Cyfeiriodd rhai at rwystrau ieithyddol wrth weithio gydag asiantaethau eraill.

Rhoddodd y defnyddwyr gwasanaeth adborth drwy gyfweiliadau gyda'u gweithiwr cymorth ynglŷn â sut roeddent yn teimlo am y ffordd yr oeddent yn cael cymorth yn flaenorol neu ar hyn o bryd neu sut maent yn teimlo y gellid eu helpu'n wahanol yn y dyfodol. Cynrychiolwyd amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys cymorth sefydlog a chymorth fel y bo'r angen, gan gynnwys: Bawso, Cyngor ar Bopeth, Pobl, Cymorth Tenantiaeth Llamau, Gofal a Thrwsio Cwm Taf, a Phrosiect Tai yn Gyntaf.

Rhoddodd 38 o ddefnyddwyr gwasanaeth adborth, ac roedd 12 ohonynt yn ddynion a 26 ohonynt yn fenywod. Roedd ystod oedran eang ymhlith y defnyddwyr gwasanaeth a roddodd adborth, gyda'r ieuengaf yn 20 oed a'r hynaf yn 82 oed. Oedran cymedrig y defnyddwyr gwasanaeth oedd 46 mlwydd oed.

Roedd cwestiynau'r cyfweiliad yn canolbwyntio ar:

- Nodi'r prif resymau pam fod angen help ar bobl
- Beth sydd wedi eu helpu fwyaf gyda'u sefyllfa bresennol

- Sut y gallent fyw bywyd da nad yw bellach yn dibynnu ar wasanaethau
- Y prif rwystrau i oresgyn digartrefedd neu anghenion cymorth.

Nodi'r prif resymau pam fod angen help ar bobl

Yn ddealladwy, roedd gan bobl ystod o resymau dros y gefnogaeth, roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynnal diogelwch gydag offer Gofal a Thrwsio
- Cymorth i fyw'n annibynnol neu ar ôl argyfwng drwy raglen Tai yn Gyntaf
- Cymorth fel y bo'r angen mewn perthynas â materion trais domestig yn y cartref
- Cymorth ariannol gan CAB, pobl yn teimlo dan bwysau oherwydd llai o incwm
- Cymorth gyda materion budd-daliadau
- Cymorth gyda materion iechyd meddwl
- Cymorth gyda materion camddefnyddio sylweddau
- Cymorth gyda materion ynghylch llety presennol a heriau'n ymwneud â chyflyrau iechyd neu fod yn agored i niwed
- Materion yn ymwneud â'r ffaith nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Yr hyn sydd wedi eu helpu fwyaf gyda'u sefyllfa bresennol

Yn gyffredinol, roedd pobl yn ddiolchgar iawn ac yn gadarnhaol am y gefnogaeth a gawsant. Roeddent yn gwerthfawrogi cysondeb a dibynadwyedd eu gweithwyr.

Roedd rhai pobl wedi bod mewn argyfwng yn ddiweddar ac roeddent yn dweud na allent fod wedi ymgysylltu â gwasanaeth arall fel iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau heb y cymorth a gawsant. Roedd cyfeirio a chymorth i gyrraedd gwasanaethau eraill yn allweddol.

Roedd gweithwyr cymorth yn helpu pobl i gynllunio a chydlynu gweithgareddau llawn straen a magu hyder wrth eu gwneud yn annibynnol. I ddechrau, roedd ymdrin â budd-daliadau, biliau a thai yn flaenoriaethau allweddol. Roedd pobl yn mynegi nad oeddent wedi gorfod gwneud llawer o'r pethau hyn eu hunain o'r blaen.

Roedd cefnogaeth emosiynol yn agwedd bwysig ar y cymorth a ddarparwyd.

Roedd gallu cysylltu â'r gweithiwr cymorth os oedd rhywbeth brys yn codi neu oes oedd rhywbeth yn achosi straen mawr yn werthfawr i lawer.

Roedd pobl yn gwerthfawrogi cefnogaeth i apelio yn erbyn penderfyniadau neu gael cymorth i eirioli drostynt eu hunain pan nad oeddent yn cael yr hyn yr oedd ganddynt hawl iddo.

Roedd ar rai pobl angen mynediad i gyfieithwyr ar y pryd.

"Mae gwybod bod help ar gael yn galonogol iawn."

"Doeddwn i ddim yn sylweddoli fy mod i wedi dioddef trais domestig hyd nes imi ddechrau cael cymorth; rwy bellach yn gweithio ar yr hyn rwy wedi bod drwyddo. Mae 'da fi anawsterau dysgu felly mae'r gefnogaeth yn ddefnyddiol iawn i mi gan fod y gweithiwr cymorth yn gwneud popeth sydd ei angen ac yn esbonio popeth i mi fel fy mod i' deall."

"Mae'r gweithiwr cymorth wedi bod yn anhygoel wrth fy helpu i gwblhau'r cais am dŷ a gwaith papur arall, ac yna pan oedd 'da fi eiddo roedd hi'n fy helpu gyda pha filiau y bydd angen i mi eu talu a chael grantiau i mi ar gyfer fy nhŷ gan nad oedd dim 'da fi. Mae'r gefnogaeth emosiynol wedi bod mor dda am nad oedd neb 'da fi i siarad â nhw."

Sut y gallent fyw bywyd da nad yw bellach yn dibynnu ar wasanaethau

Roedd gan bobl ystod o nodau fel:

- Parhau i fod yn rhydd o gyffuriau
- Bod â llety addas
- Bod yn agosach at gefnogaeth ffrindiau a theulu
- Cael y cymorth sy'n meithrin sgiliau a strategaethau ymdopi
- Derbyn yr hawliau cywir
- Gwellu eu Saesneg
- Meithrin hyder

Nododd rhai pobl nad oeddent yn gallu gweld eu hunain yn gallu ymdopi heb gymorth, fel rhai sydd â chyflyrau cronig neu anafiadau sy'n newid bywydau.

"Ni fyddwn byth yn ymdopi heb ein gwasanaethau; rwy'n dibynnu ar y cymorth sy'n cael ei roi ac ni fyddwn i byth yn ymdopi oherwydd yr anaf i fy ymennydd. Heb fy ngweithiwr cymorth, fe fyddwn i yn y carchar neu'n ôl ar y strydoedd. Bydd angen cymorth dwys arnaf bob amser gan raglen Tai yn Gyntaf. Mae'n mynd yn dda iawn gyda fy ngweithiwr cymorth newydd ac mae'n deall fy anghenion cymorth. Mae'n fy nghadw i ar y trywydd iawn gyda phopeth."

"Yn ariannol, rydym ni lawer mwy diogel nawr, gyda fy PIP wedi cynyddu, a fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Lwfans Gofalwr wedi'u hadfer. Mae cael y car Motability newydd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Rwy'n teimlo'n fwy diogel yn y car. Mae fy mhartner wedi mynd â mi i allan ychydig o weithiau nawr. Dydyn ni ddim wedi mynd yn bell – dim ond i Tesco. Doeddwn i ddim yn gallu mynd i mewn ac fe fynais fod fy mhartner yn parcio yng nghefn y maes parcio a wynebu'r wal, ond roeddwn i'n gallu eistedd yn y car. Rwy hefyd wedi bod i lawr y ffordd i dŷ fy nhad ac eistedd yn y car y tu allan yno. Mae'r rhain yn gamau bach iawn ond fyddwn i ddim wedi gwneud hyn pe na bai gennym ni'r car newydd."

"Gwell gwasanaethau statudol o'r diwrnod cyntaf. Mae methiannau wedi achosi i mi ofyn am gymorth / dibynnu ar wasanaethau eraill."

Y prif rwystrau i oresgyn digartrefedd neu anghenion cymorth

Unwaith eto, roedd amrywiaeth o heriau a rhwystrau:

- Effaith negyddol pwysau gan gyfoedion.
- Mae angen i weithwyr ddysgu sut i ymgysylltu i ddatblygu perthynas broffesiynol.
- Diffyg tai yn ardal Merthyr.
- Ddim yn gwybod ble i fynd i gael cymorth.
- Bod yn sâl, yn gorfforol neu'n feddyliol.
- Dibynnu ar bartneriaid sy'n cam-drin.
- Gallu cymryd a deall gwybodaeth.
- Peidio â deall hawliau a'r system ehangach.
- Angen am gyfieithu, ar lafar ac iaith arwyddion.
- Peidio â gwybod â phwy i siarad os oes problemau.

"Ni allem fod wedi gwneud hyn ein hunain. Roedd fy iechyd meddwl mor wael, prin y gallwn i fynd allan o'r gwely lawer o'r amser. Roedd fy mhartner dan straen mawr ac nid oedd yn gwybod beth i'w wneud. Fyddem ni ddim wedi gwybod beth i'w ddweud a byddai pobl wedi ein troi ni ymaith. Doedd gennym ni ddim syniad. Fe fyddem ni wedi rhoi'r gorau iddi. Roedd yn ormod ar ein pen ein hunain."

"Mae popeth yn rhy gymhleth i'w ddeall. Mae'n ddigon anodd deall y cyngor mae'r cynghorydd yn ei roi i chi ynglŷn â budd-daliadau, heb sôn am geisio ei ddeall eich hun a gwneud yn siŵr ei fod i gyd yn gywir ac nad ydych wedi gwneud unrhyw beth o'i le."

"Roedd ein Credyd Cynhwysol wedi'i dalu'n anghywir am bron i 2 flynedd. Rydym ni wedi colli allan ar ryw 12 mil mewn incwm yn ystod y ddwy flynedd. Doedden ni ddim hyd yn oed yn ymwybodol o hyn nes iddo gael ei ddarganfod gan y cynghorydd/gweithiwr cymorth. Yna cymerodd wythnosau i'w gywiro ac roedd angen i'r CA hyd yn oed gyflwyno cwyn er mwyn i hyn gael sylw."

"Y brif broblem oedd peidio â gwybod at bwy i droi neu ble i ddechrau mynd i'r afael â fy mhroblemau dyled. Roeddwn i wedi fy llethu ac roedd y llythyrau'n fy nychryn i. Roeddwn i'n meddwl mai'r unig opsiwn oedd mynd yn fethdalwr ond doeddwn i ddim yn hoffi syniad yr opsiwn yma."

Canlyniadau

Crynodeb

- Mae darparwyr y Grant Cymorth Tai yn defnyddio Fframwaith Canlyniadau Llywodraeth Cymru.
- Yn y flwyddyn lawn ddiweddaraf o ddata, Rheoli Arian oedd y canlyniad a oedd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o bobl. Rheoli arian hefyd oedd y canlyniad lle y gwnaeth pobl y cynnydd cadarnhaol mwyaf.
- Yn achos rheoli llety a bod yn iach yn feddyliol y gwelwyd y cynnydd mwyaf tuag at y nodau cymorth. Ond Hybu Iechyd a Lles oedd y categori cymorth lle y gwnaed y cynnydd cyffredinol lleiaf.
- Roedd rhanddeiliaid a darparwyr yn mynegi pryderon nad yw'r canlyniadau y gallant eu cofnodi yn adlewyrchu effaith eu cymorth yn llawn, yn enwedig yn achos pobl sydd ag anghenion uchel. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru ar gyflwyno Fframwaith Canlyniadau Sengl ar draws dwy ffrwd y grant, sydd wedi'i ohirio o ganlyniad i'r pandemig.
- Mae deall anghenion nas diwallwyd yn heriol o ystyried y cyfyngiadau ar ddeall canlyniadau fel y disgrifir uchod.
- Prin oedd y wybodaeth ar gyfer 20 21 ar anghenion na ellid eu diwallu, a dim ond un atgyfeiriad a gafwyd i lety â chymorth nad oedd wedi'i dderbyn.

Fframwaith Canlyniadau Llywodraeth Cymru

Fel rhan o delerau ac amodau'r Grant Cymorth Tai, mae'n ofynnol i'r Awdurdod lenwi templed canlyniadau Llywodraeth Cymru i ddangos tystiolaeth o'r rhaglen. Mae'r mesur presennol o gymorth yn seiliedig ar fframwaith Canlyniadau Llywodraeth Cymru, ac mae i hyn y 4 prif bennawd canlynol:

Hyrwyddo Diogelwch Personol a Chymunedol

Hyrwyddo Annibyniaeth a Rheolaeth

Hyrwyddo Cynnydd Economaidd a Rheolaeth Ariannol

Hybu Iechyd a Lles

Data canlyniadau

Newidiodd yr adroddiadau ym Merthyr Tudful o'r flwyddyn galendr (Ionawr – Rhagfyr) i'r flwyddyn ariannol (Ebrill – Mawrth) rhwng 2020 a 2021. O ganlyniad, mae ffurflenni ar gyfer mis Ionawr i fis Rhagfyr 2020 a ffurflen yn cwmpasu Ionawr i Fawrth 2021. Mae data'r canlyniadau ar gyfer 2019, 2020 a 2021 wedi'i adolygu ar gyfer yr asesiad hwn o anghenion.

Yn 2020, roedd gan 2,625 o ddefnyddwyr gwasanaeth categori cymorth cleientiaid arweiniol, roedd gan 998 categori cymorth eilaidd ac roedd gan 463 categori cymorth trydyddol. O'r 2,625 o

ddefnyddwyr gwasanaeth â chategori cymorth arweiniol yn 2020, roedd 539 mewn llety sefydlog ac roedd 2,086 mewn llety fel y bo'r angen.

Y categorïau cymorth arweiniol mwyaf cyffredin yn 2020 oedd cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd (1,480 o bobl), pobl â phroblemau iechyd meddwl (330 o bobl) a menywod sy'n profi cam-drin domestig (168 o bobl). Roedd y tri chategori cymorth mwyaf cyffredin hyn yn cyfrif am fwy na thri chwarter cyfanswm y defnyddwyr gwasanaeth â chategori cymorth arweiniol.

Roedd y categorïau cymorth arweiniol yn 2020 yn adlewyrchu'r rhai yn 2019. Y categorïau cymorth arweiniol mwyaf cyffredin oedd cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd, pobl â phroblemau iechyd meddwl, a phobl unigol 25-54 oed ag anghenion cymorth nad ydynt yn dod o dan gategori cymorth eraill.

Fodd bynnag, ni chafodd y tueddiadau hyn eu hadlewyrchu yn chwarter cyntaf 2021, a'r categorïau cymorth arweiniol mwyaf cyffredin oedd: pobl â phroblemau iechyd meddwl (55 o bobl), pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau – cyffuriau a sylweddau anweddol (31 o bobl) a phobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau – alcohol (22 o bobl).

Yn 2020, rheoli arian oedd y canlyniad a oedd yn berthnasol i 2,335 o bobl, y mwyaf o unrhyw ganlyniad. Roedd hyn hefyd yn wir yn 2019 ac yn chwarter cyntaf 2021. Rheoli arian hefyd oedd y canlyniad lle gwnaeth pobl y cynnydd cadarnhaol mwyaf, gyda 48% yn bodloni'r canlyniad a 46% arall yn cael canlyniad cadarnhaol (er nad yn bodloni'r canlyniad cymorth). Yn yr un modd, yn chwarter cyntaf 2021, rheoli arian oedd y canlyniad lle gwnaeth pobl y cynnydd cadarnhaol mwyaf, gyda'r gyfran uchaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn bodloni'r canlyniad.

Ar ôl rheoli arian, rheoli llety a bod yn iach yn feddyliol oedd y canlyniadau cymorth a oedd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o bobl – 1,178 a 945 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn eu trefn yn 2020. Rheoli arian, rheoli llety a bod iach yn feddyliol oedd y canlyniadau cymorth mwyaf cyffredin yn chwarter cyntaf 2021 hefyd,.

Y canlyniad a oedd yn berthnasol i'r nifer leiaf o ddefnyddwyr gwasanaeth oedd ymgymryd â chyflogaeth / gwaith gwirfoddol, a oedd yn berthnasol i ddim ond 173 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn 2020 a 68 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod chwarter cyntaf 2021. Yn 2020, cyfarfu traean o'r defnyddwyr gwasanaeth â'r canlyniad gyda 58% arall yn cael canlyniad cadarnhaol heb fodloni'r canlyniad ei hun.


Pobl 55+ oed ag anghenion cymorth a wnaeth y cynnydd lleiaf ar draws y rhan fwyaf o ganlyniadau cymorth o blith y categorïau cymorth arweiniol o fwy na 50 o bobl. Rhai sy'n cael cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd, a menywod sy'n profi cam-drin domestig, oedd â'r gyfran fwyaf o bobl yn cyflawni canlyniadau cymorth.

Pobl ag anabledau dysgu (fel categori cymorth cleientiaid arweiniol) oedd yn dueddol o fod â'r nifer leiaf o bobl naill ai'n cyflawni canlyniadau cymorth neu'n cael canlyniadau cadarnhaol, ar draws pob thema a'r rhan fwyaf o ganlyniadau cymorth. Fodd bynnag, mae'n werth nodi nad yw'r Cyngor o reidrwydd yn disgwyl gwelliant mewn canlyniadau i lawer o'r gwasanaethau penodol hyn gan fod llawer o'r cymorth tai yn cynnal lefelau annibyniaeth ac yn osgoi unrhyw ddirywiad pellach i mewn ofal preswyl neu leoliadau eraill.

Yn 2020, roedd rheoli arian yn ganlyniad a oedd yn berthnasol i 2,335 o bobl, y mwyaf o unrhyw ganlyniad. A dyma'r achos hefyd yn 2019 ac yn chwarter cyntaf 2021. Rheoli arian hefyd oedd y canlyniad lle gwnaeth pobl y cynnydd cadarnhaol mwyaf, gyda 48% yn bodloni'r canlyniad a 46% arall yn cael canlyniad cadarnhaol (er nad yn bodloni'r canlyniad cymorth). Yn yr un modd, yn chwarter cyntaf 2021, rheoli arian oedd y canlyniad lle gwnaeth pobl y cynnydd cadarnhaol mwyaf, gyda'r gyfran uchaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn bodloni'r canlyniad.

Mae thema Hybu Iechyd a Lles yn cynnwys y canlyniadau cymorth canlynol: bod yn gorfforol iach, bod yn feddyliol iach, a byw bywyd iach a gweithgar. Y canlyniadau cymorth hyn oedd â'r nifer leiaf o bobl yn cyflawni/cael canlyniad cadarnhaol yn 2019, 2020 ac yn chwarter cyntaf 2021.

Yn 2020, bod yn gorfforol iach oedd y canlyniad cymorth a oedd â'r gyfran fwyaf o bobl nad oedd wedi dangos canlyniad cadarnhaol eto (18%), ac yna bod yn iach yn feddyliol (15%). Bod yn iach yn gorfforol a bod yn iach yn feddyliol hefyd oedd â'r gyfran fwyaf o bobl nad oeddent eto wedi dangos canlyniad cadarnhaol yn 2019, er nad yw hyn yn wir yn chwarter cyntaf 2021, gan fod mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael canlyniadau cadarnhaol ond heb gyflawni'r canlyniad. Nid yw'r data'n darparu achos amlwg y tu ôl i'r duedd hon; ond bydd y ffurflenni ar gyfer gweddill 2021/22 yn dangos a yw'r duedd hon wedi parhau.



Ffigur 14: Canlyniad defnyddwyr gwasanaeth yn ôl canlyniad cymorth

Canlyniad y cymorth	Heb eto ddangos canlyniad cadarnhaol fel prif gategori cymorth cleient	Wedi cael canlyniad positif ond heb eto gyflawni'r canlyniad fel prif gategori cymorth cleient	Wedi cyflawni'r canlyniad fel prif gategori cymorth cleient
			283
Cyfrannu at eu diogelwch a'u llesiant eu hunain ac eraill	93	483	
Rheoli llety	144	765	
Rheoli perthnasoedd	89	357	
Teimlo'n rhan o'r gymuned	66	311	
Rheoli arian	148	1,063	
Ymwneud â dysgu addysgiadol	23	230	
Ymwneud â chyflogaeth / gwaith gwirfoddol	16	100	
Bod yn iach yn gorfforol	122	410	
Bod yn iach yn feddyliol	143	660	
Byw bywyd iach a gweithgar	59	314	

Tabl 16:

Canlyniad y cymorth	Heb eto ddangos canlyniad cadarnhaol fel prif gategori cymorth cleient	Wedi cael canlyniad positif ond heb eto gyflawni'r canlyniad fel prif gategori cymorth cleient	Wedi cyflawni'r canlyniad fel prif gategori cymorth cleient
Cyfrannu at eu diogelwch a'u llesiant eu hunain ac eraill	13	237	
Rheoli llety	48	441	
Rheoli perthnasoedd	3	197	
Teimlo'n rhan o'r gymuned	8	136	
Rheoli arian	421	18	
Ymwneud â dysgu addysgiadol	3	100	
Ymwneud â chyflogaeth / gwaith gwirfoddol	0	52	
Bod yn iach yn gorfforol	13	182	
Bod yn iach yn feddyliol	13	279	
Byw bywyd iach a gweithgar	4	141	

Tabl 17

Mynegodd rhanddeiliaid a darparwyr bryderon nad yw'r canlyniadau y gallant eu cofnodi yn adlewyrchu effaith eu cymorth yn llawn, yn enwedig yn achos pobl sydd ag anghenion uchel. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru i gyflwyno Fframwaith Canlyniadau Sengl ar draws dwy ffrwd y grant, sydd wedi'i ohirio o ganlyniad i'r pandemig. Mae disgwyliad yn gysylltiedig â hyn y bydd adrannau'n dangos bod pob prosiect yn cael ei ddatblygu gan roi le amlwg i integreiddio a chydweithredu, gan ystyried cyd-gomisiynu lle bo hynny'n bosibl ac integreiddio ymhlith y grantiau i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r defnyddiwr gwasanaeth yn y ffordd fwyaf effeithlon.

Atodiad 1 Crynodeb o bolisi a deddfwriaeth

Mae'r tirlun polisi digartrefedd sy'n esblygu wedi cynnwys:

- Cyhoeddi 'Atal Digartrefedd a Hybu Annibyniaeth' yn 2016 – yn ei hanfod, llwybr at annibyniaeth economaidd i bobl ifanc drwy gyngor ar dai, opsiynau ac atal digartrefedd.
- Cyflwyniad yn 2016 o'r trefniadau 'Pan fydda i'n Barod' o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (gweler isod), a oedd yn galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i aros gyda'u gofalwyr y tu hwnt i 18 oed.
- Yn 2016, cyhoeddodd Barnardos Fframwaith Llety a Chymorth i Bobl sy'n Gadael Gofal gyda'r nod o gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu tai a chymorth yn effeithiol i bobl ifanc a rhai sy'n gadael gofal.
- Llywodraeth Cymru'n cyflwyno dull 'Tai yn Gyntaf' i roi terfyn ar ddigartrefedd; dull sy'n canolbwyntio ar adferiad ac ar symud pobl sy'n profi digartrefedd yn gyflym i dai annibynnol a pharhaol ac yna darparu cymorth a gwasanaethau ychwanegol yn ôl yr angen.
- Pwyslais o'r newydd, mewn ymateb i bandemig Covid-19, ar leihau digartrefedd ar y stryd drwy ddarparu atebion llety dros dro, gan arwain at Lywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau cynllunio Cam 2 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid gynllunio i sicrhau bod pawb sy'n dod i mewn i lety dros dro yn cael eu cefnogi i mewn i lety hirdymor, bod y pwyslais yn parhau ar atal a chadw digartrefedd yn brofiad prin, byr nad yw'n cael ei ailadrodd.
- Canllawiau cynllunio Cam 3 (2020) sy'n cefnogi'r gwaith o ddylunio a datblygu gwasanaethau cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Cyfres o ymgyrchoedd â ffocws gan gynnwys Ymgyrch End Youth Homelessness Cymru 2018, a oedd yn canolbwyntio ar anghenion y gymuned LHDT+, yn cefnogi'r rhai â phroblemau iechyd meddwl ac yn lleihau'r cysylltiadau rhwng digartrefedd ac ymddieithrio addysgol a'r system ofal.
- Buddsoddiad ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru, yn arbennig £10m yn 2019-20 i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc drwy wella'r ddarpariaeth bresennol a datblygu gwasanaethau newydd; a lansio cronfa arloesi gwerth £4.8m yn 2019-20 i gefnogi 26 o brosiectau ledled Cymru i roi cynnig ar ddulliau newydd ac arloesol o roi cymorth tai.
- Adroddiad i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn 2020 yn rhoi persbectif polisi cyfannol i roi terfyn ar ddigartrefedd.
- Adroddiad i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn 2020 yn rhoi persbectif polisi cyfannol i roi terfyn ar ddigartrefedd ac ymateb y Llywodraeth ar ffurf dogfen ymgynghori o'r enw '**Rhoi terfyn ar ddigartrefedd: Cynllun gweithredu lefel uchel: 2021-2026**', gan adeiladu ar ganllawiau cynllunio Cam 2.

- Fe'i gwnaed yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gwblhau **Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym** erbyn diwedd Medi 2022.
 - Ymrwymadau strategol penodol o fewn **Rhaglen Lywodraethu (2021) Llafur** Cymru, fel a ganlyn:
 - Diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym.
 - Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu dros y cyfnod 2021 i 2026.
 - Cefnogi tai cydweithredol, mentrau wedi'u harwain gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.
 - Datblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
 - Sicrhau bod landlordiaid Rhentu Doeth Cymru yn ymateb yn gyflym i gwynion am hiliaeth a throseddau casineb a chynnig unrhyw gymorth priodol.

Ymrwymadau pellach o fewn Cytundeb Cydweithredu Llafur/ Plaid Cymru (Tachwedd 2021), fel a ganlyn:

- Cymryd camau radical ar unwaith i fynd i'r afael â'r lluo o ail gartrefi a thai anfforddiadwy, gan ddefnyddio'r systemau cynllunio, eiddo a threthiant.
- Sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gynorthwyo cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.
- Cyhoeddi Papur Gwyn i gynnwys cynigion ar gyfer hawl i dai digonol, y rôl y gallai system rhenti teg (rheoli rhenti) ei chael o ran gwneud y farchnad rhentu preifat yn fforddiadwy i bobl leol ar incwm lleol a dulliau newydd o wneud cartrefi'n fforddiadwy.

Rhoi terfyn ar ddigartrefedd drwy ddiwygio cyfraith tai, gweithredu'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i roi mwy o sicrwydd i rentwyr a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu i'r Digartref.

- Newidiadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 sy'n cryfhau hawliau a diogelwch tenantiaid yng Nghymru.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ceisio cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru er mwyn sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n darparu ar gyfer gwella'r canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth, a gofawyr sydd angen cymorth a chydlynid a phartneriaeth gan awdurdodau cyhoeddus gyda'r bwriad o wella lles pobl.
- Adolygiad Llywodraeth Cymru o Dai Fforddiadwy 2019 a gomisiynwyd gyda'r nod o ystyried a ellir gwneud mwy i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru.
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 sy'n

cryfhau ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i gam-drin a thrais drwy wella trefniadau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, atal hyn, a'u hamddiffyn a'u cefnogi.

- Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau: 2019 i 2022 (Cymru) sy'n nodi meysydd blaenoriaeth sy'n cynnwys ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd sy'n gyffredin mewn achosion o gamddefnyddio sylweddau, gan sicrhau arfer cryf o weithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau tai a digartrefedd.
- Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n diogelu pobl y gwahaniaethir yn eu herbyn oherwydd canfyddiad bod ganddynt nodwedd warchodedig, neu eu bod yn gysylltiedig â rhywun sydd â nodwedd warchodedig. Mae diogelu yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus. Yn ogystal, cyflwynwyd Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd yng Nghymru yn 2020 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, wrth wneud penderfyniadau strategol fel penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.